



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder




Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 18 Ionawr 2018

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 29 Mawrth 2018





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd

**Cynhyrchwyd yr ymgynghoriad hwn gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM,
sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth
Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk/about/hmcts/index.htm**

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At: Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr y llys, ynadon, y farnwriaeth, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth o ran trefniadau cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.

Hyd: O 18/01/18 i 29/03/18

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol): HMCTS Consultation
Post Point 6.07
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Sut i ymateb: Dylech anfon eich ymateb erbyn 29/03/2018 i:
HMCTS Consultation
Post Point 6.07
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Ffyrdd ychwanegol i chi gyflwyno eich barn: I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer 'Ymholiadau' uchod.

Y papur ymateb: Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn: www.justice.gov.uk/about/hmcts/index.htm

Contents

Rhagair	3
Rhagarweiniad	4
Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd	5
1. Rhan 1. Diwygio Gwasanaethau GLITEM	5
Moderneiddio gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd	8
Cysylltiadau fideo a gwrandawiadau rhith	8
Cynnig gwasanaethau digidol	9
Oriau agor hyblyg	10
Gwella ein gwasanaethau yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd	10
2. Rhan 2. Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd – y stori hyd yma	13
Ymgynghoriadau blaenorol ar yr ystad	13
Hyblygrwydd	14
Gwaith cynnal a chadw	14
3. Rhan 3. Cynigion ar gyfer cau canolfannau	20
Adolygu ein hystad	20
Egwyddorion yr ystad	20
Tu allan i Ganol Llundain	21
Ystad llysoedd a thribiwnlysoedd Canol Llundain	22
4. Rhan 4. Ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol	23
Egwyddor 1: Sicrhau mynediad at gyfiawnder	25
Mynediad at gyfiawnder yn GLITEM sydd wedi'i ddiwygio	25
Ystyried lleoliad llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder	25
Amser teithio fel ffordd o asesu'r effaith ar fynediad at gyfiawnder	26
Egwyddor 2: Darparu gwerth am arian	28
Asesu capasiti a'r defnydd a wneir o ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd	29
Optimeiddio capasiti ystafelloedd gwrandawiadau	31
Egwyddor 3: Sicrhau effeithiolrwydd yn yr hirdymor	33
Bodloni ein hamcanion yng ngoleuni'r egwyddorion	33
Y lleoliadau cywir	33
Lleoliadau eraill a darpariaethau llysoedd a thribiwnlysoedd atodol	34
Dadansoddiad o amseroedd teithio – datblygu ein dealltwriaeth	38

Asesu capasiti a defnydd	38
Asesu a chynnal ein ystad	39
Cynladwyedd a'n hystad treftadaeth	40
Gwella cyfleusterau i ddiodefwyr a thystion sy'n dod i'r llys	41
Cyfleusterau i blant a phobl ifanc	42
Canllaw dylunio adeiladau llys yn y dyfodol	42
Pobl a systemau	48
Dod â'n gwaith dadansoddi ynghyd	49
5. Rhan 5. Ymgynghori ar ddiwygio'r ystad yn y dyfodol	51
Asesu ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd	51
Y broses gwneud penderfyniadau	51
Ymgynghori a thystiolaeth	52
Integreiddio adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd	53
Gwerthuso effaith gwneud newidiadau i'r ystad ar y gwasanaethau a ddarperir	53
Holiadur	55
Mapiau	56
Amdanoch chi	57
Egwyddorion ymgynghori	59
Manylion cyswllt Cydlynnydd yr Ymgynghoriad	60

Rhagair

Mae'r Llywodraeth a'r farnwriaeth wedi cytuno i ymrwymo i raglen ddiwygio gwerth £1 biliwn fydd yn defnyddio technoleg a ffyrdd o weithio modern i drawsnewid ein system cyfiawnder fel ei bod yn parhau i arwain ac ysbrydoli'r byd. Mae ein prif egwyddorion yn gadarn - mae'n rhaid i'r system fod yn gyfiawn, yn gymesur ac yn hygyrch i bawb - ond er mwyn rhoi bywyd iddynt mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y byd modern i weinyddu'n system yn well, ac i gynnig llwybrau hollol newydd, mwy cyfleus a chyflym i gyfiawnder. Bydd hyn yn golygu defnyddio ein llysoedd a'n hadeiladau yn wahanol, a chaniatáu mwy o gyfleoedd i unigolion gytuno ar anghydfodau – ac i ddatblygu achosion – mewn ffordd sy'n golygu nad oes angen iddynt deithio a mynychu'r llys. Bydd hefyd yn golygu sicrhau bod ein hadeiladau yn addas i'r pwrpas, a bod eu cyflwr yn helpu'r unigolion sy'n eu defnyddio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud ynddynt – rhywbeth nad yw'n wir yn llawer rhy aml yn yr adeiladau sydd gennym ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i ni ystyried siâp yr ystad pan fyddwn yn gwneud y newidiadau hyn. Bydd gallu cael mynediad at adeiladau llys a thribiwnlysoedd dal i fod yn bwysig, hyn yn oed pan fyddwn yn cynnig mwy o ffyrdd i wneud iawn heb orfod teithio; ond mae hefyd yn bwysig nad ydym yn cadw gafael ar adeiladau nad ydym eu hangen mwyach – oherwydd maent yn defnyddio adnoddau i'w rhedeg a'u cynnal y gallem eu defnyddio'n well yn rhywle arall (ac mae hyn yn wir ble bynnag y mae lefelau nawdd yn cael eu gosod – bydd yna wastad gyfleoedd i leihau costau). Mae hanes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM) yn golygu fod gennym yn aml nifer o adeiladau yn yr un dref, ac mae yna nifer o lysoedd a thribiwnlysoedd mewn llefydd na fyddai trefnydd meddylgar yn eu rhoi petai'r system yn cael ei chynllunio nawr. Bydd cael llawer mwy o ffyrdd o gael mynediad at gyfiawnder heb orfod teithio, a chael llai o adeiladau ond adeiladau sydd mewn gwell cyflwr, mewn lleoliadau da ac sydd â chysylltiadau da, sy'n groesawus, yn hawdd i'w defnyddio ac sydd mewn cyflwr da yn rhoi gwell system cyfiawnder i ni, a bydd yn rhyddhau adnoddau er mwyn gwneud yr ystad yn gynaliadwy. Bydd ein cytundeb gyda'r Trysorlys yn golygu y byddwn yn cadw'r arian a gawn yn sgil gwerthu adeiladau llys a thribiwnlysoedd i'w ail-fuddsoddi mewn gwelliannau.

Bydd gwneud newidiadau i ystad y llysoedd wastad yn creu trafodaeth, ac mae'n iawn ein bod yn disgwyl i unrhyw gynigion y byddwn yn eu gwneud gael eu craffu a'u profi. Rydym yn croesawu sylwadau a heriau, oherwydd rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw cael hyn yn iawn. Rydym eisiau nodi'n glir yr egwyddorion yr ydym yn bwriadu eu defnyddio, a'r dystiolaeth y byddwn yn ei defnyddio pan fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau, a drwy'r ddogfen hon, rydym yn ceisio gwneud hynny, a gwahodd yr amrediad ehangaf bosib o safbwyntiau ar yr hyn sy'n cael ei gynnig. Gobeithiaf y byddwch yn manteisio ar y cyfle hwn i helpu i siapiau ein strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Susan Acland-Hood

Prif Weithredwr, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Rhagarweiniad

Mae'r papur ymgynghori hwn yn manylu ar y strategaeth arfaethedig ar gyfer y dyfodol a sut dylem fynd ati i ddiwygio ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'n nodi'r gwaith moderneiddio ehangach sydd ar y gweill yn GLITEM ac mae'n trafod ein cynigion ar gyfer gwerthuso sut dylai ein hystad newid o ganlyniad i hyn. Mae'r ymgynghoriad wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gweithwyr a chyrrff proffesiynol cyfreithiol, y farnwriaeth a'r ynadaeth a phob unigolyn arall sydd â diddordeb yn ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr.

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymgynghori hwn ar gael yn

<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-court-tribunal-estate>

Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd

1. Rhan 1. Diwygio Gwasanaethau GLITEM

- 1.1. Bydd diwygio GLITEM yn trawsnewid y system cyfiawnder a sut mae cael mynediad at wasanaethau. Bydd y buddsoddiad o dros £1 biliwn yn sicrhau gwell ffyrdd o gael mynediad at gyfiawnder ac mae angen felly ail-werthuso'r ffordd yr ydym yn meddwl am fynediad at gyfiawnder a sut ydym yn asesu ei effeithiolrwydd.
- 1.2. Mae sawl un yn teimlo bod y system cyfiawnder yn anodd i'w defnyddio, yn araf ac yn gyfyngol. Rydym eisiau gwneud i'r system weithio'n well drwy ei haddasu i ymateb i anghenion y cyhoedd. Mae gallu gwneud pethau'n fwy hyblyg, ar-lein, ac ar amser cyfleus o bwys i bawb sy'n defnyddio'r system cyfiawnder, ac yn enwedig i nifer o ddefnyddwyr bregus. Rydym yn gwneud newidiadau er mwyn gallu darparu system cyfiawnder sy'n fwy agored a hygyrch, sy'n gyflymach, yn haws ac yn fwy effeithlon i'r rhai hynny sy'n ei defnyddio, y rhai hynny sy'n gweithio ynddi a'r rhai hynny sy'n talu amdani. Mae hyn yn cynnwys symud o systemau papur i systemau digidol er mwyn symleiddio'r broses o reoli achosion, newid rhai o brosesu presennol y llysoedd a'r tribiwnlysoedd i fod yn rhai ar-lein, a chyflwyno gwrandawiadau rhith fel y gall pobl roi tystiolaeth ac ymgysylltu â'r system gyfreithiol heb orfod teithio i'r llys neu'r tribiwnlys. Mae'r rhain a newidiadau eraill eisoes yn cael eu cyflwyno – ac maent yn dechrau cael effaith positif.
- 1.3. Yn eu datganiad ar y cyd, 'Transforming our Justice System', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016, mi wnaeth yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd adnabod y potensial aruthrol i'r system cyfiawnder o wneud gwell defnydd o dechnoleg:

Bydd y chwyldro mewn **technoleg** yn siapio'r system cyfiawnder ar gyfer fory. Byddwn yn darparu mynediad ar-lein at wasanaethau drwy ddatblygu system ar-lein ar gyfer dechrau a rheoli achosion ar draws yr awdurdodaethau troseddol, sifil, teulu a'r tribiwnlysoedd. Bydd hyn yn helpu pobl i ddeall beth yw eu hawliau a pha opsiynau sydd ar gael iddynt. Bydd y systemau cofnodi a rheoli achosion cadarn a gyflwynir, a fydd yn llai gweladwy i'r cyhoedd, yn cael gwared â'r systemau ffeilio papur hynod o aneffeithiol sydd mewn lle heddiw – mesurau fydd yn gwella effeithiolrwydd prosesau...

Bydd rhai achosion yn cael eu trin yn gyfan gwbl ar-lein. Yn y llysoedd troseddol, rydym eisoes yn gweld barnwyr ac ynadon yn gweithio ar-lein yn hytrach nag yn yr ystafelloedd llys, yn penderfynu ar achosion addas neu rannau o achosion ar sail y papurau a gyflwynwyd iddynt yn electronig. Mae hyn yn galluogi'r amddiffyniad, yr erlyniad a'r llysoedd i weithio'n fwy hyblyg a chynnal achosion yn fwy effeithiol. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu ymestyn y manteision hyn ymhellach drwy gyflwyno proses strwythuredig ar gyfer pledio ar-lein, a chynnal "gwrandawiadau rhith" gan alluogi cyfreithwyr, partiön a thystion i gymryd rhan mewn gwrandawiadau traddodiadol dros y ffôn a drwy fideo. Bydd hyn yn cael ei ymestyn drwy'r system cyfiawnder i gyd, ac

nid dim ond yn yr awdurdodaeth droseddol, a fydd yn gwneud y llysoedd yn fwy addas i bawb.¹

- 1.4. Mae croesawu technoleg fodern yn cynnig cyfle i wella profiad y rhai hynny sy'n defnyddio'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac mae yna botensial na fyddai angen i rai unigolion fynychu gwrandawriad mewn rhai achosion. Nid yw bob amser yn angenrheidiol neu'n deg gofyn i bartïon deithio i lys neu dribiwnlys ac aros o gwmpas am eu gwrandawriad. Fel mater o drefn, nid oes rhaid i wrandawriadau paratoi neu reoli achos fod yn wrandawriadau wyneb yn wyneb. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd 284,000 o wrandawriadau cyn treial yn Llys y Goron, ac roedd 167,000 o'r rhain yn wrandawriadau paratoi achos neu'n wrandawriadau cynnydd, ac nid oedd angen cynnal pob un ohonynt wyneb yn wyneb. Wrth i ni ddatblygu systemau digidol mwy effeithlon, sy'n caniatáu mynediad diogel ond o bell at bapurau achosion, gellir cynnal mwy o wrandawriadau o'r fath yn rhywle heblaw mewn ystafell llys neu dribiwnlys traddodiadol, e.e. dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo, gan leihau oedi a theithiau diangen i'r llys neu i'r tribiwnlys. Fodd bynnag, y farnwriaeth fydd yn penderfynu beth ddylid ei wneud yn rhith – ni fyddwn yn mynnu bod gwrandawriadau rhith yn cael eu cynnal. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd dal angen cynnal gwrandawriadau gyda llawer o achosion er mwyn cyflawni cyfiawnder. Er hynny, drwy ddefnyddio technoleg (sydd eisoes ar gael) yn well, mae yna lawer mwy y gallwn wneud fel nad oes rhaid i unigolion fynychu gwrandawriad.
- 1.5. Mae pwysigrwydd moderneiddio, defnyddio technoleg a datblygu gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd ar gyfer y dyfodol yn bwynt sydd wedi cael ei amlygu gan yr uwch farnwriaeth. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf maent wedi hyrwyddo a chefnogi'r cais am ddiwygio:

Canlyniad gweladwy [Diwygio] fydd adeiladau llys sy'n dra gwahanol o ran dyluniad a swyddogaeth i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag o, a bydd barnwyr ac ymarferwyr yn ymweld â nhw'n llai aml nag maent yn gwneud ar hyn o bryd oherwydd prosesau cyfathrebu digidol.²

Syr James Munby, Llywydd yr Adran Teulu, 2016

Canlyniad digitaleiddio yw y byddwn mewn sefyllfa i allu ail-werthuso lle mae adeiladau'r llysoedd wedi'u lleoli, a gobeithio eu hail-leoli, fel nad oes angen gwahaniaethu rhwng adeilad llys sirol, adeilad Llys y Goron, llys ynadon, neu adeilad tribiwnlys: dylai canolfannau aml-lys ddatblygu i ddod yn rhywbeth normal oherwydd digitaleiddio. Bydd y Llys Datrysiaid Ar-lein yn galluogi partïon i gyflwyno cyfreitha o, er enghraifft, y cyfrifiadur sydd ganddynt adref. Ni fydd angen iddynt fynychu gwrandawriad mewn ystafell llys draddodiadol. Bydd cyfiawnder wirioneddol yn lleol.³

Syr Terence Etherton, Meistr y Rholiau, 2017

Fel y dinasyddion mae'n eu gwasanaethu, gellir cyflawni cyfiawnder mewn sawl ffordd – gan y gwneuthurwr penderfyniadau mwyaf addas; mewn ystafelloedd gwrandawriadau modern, neu mewn unedau ysbyty iechyd meddwl, neuaddau

¹ Transforming Our Justice System gan yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, Medi 2016, tudalen 6.

² Araith gan Syr James Munby, Llywydd yr Adran Teulu, yn Neuadd y Deml Ganol, 26 Chwefror 2016 i Anerchiad y Llywydd yng Nghinio Blyneddol Cymdeithas Bar Cyfraith Teulu

³ Araith gan Syr Terence Etherton, Meistr y Rholiau 'The Civil Court of the Future' yn Narlith Goffa Arglwydd Slynn, 14 Mehefin 2017

cymunedol neu leoliadau anghysbell; drwy gysylltiadau fideo; ar liniaduron, tabledi a ffonau clyfar, ac ar-lein gyda'r dinesydd a'r penderfynwr yn dod at ei gilydd yn rhith. Gellir dweud bod y syniad o gyflawni cyfiawnder mewn lleoliadau o'r fath i ryw raddau yn anghywir; ei fod yn enllibio urddas y gyfraith. Mae beirniadaeth o'r fath yn diystyru un pwynt hynod o bwysig: nid yw cyfiawnder y tu allan neu uwchlaw'r dinesydd. I ddychwelyd at thema flaenorol, mae'r hawl i gael mynediad effeithiol at gyfiawnder yn ganlyneb pwysig o ymreolaeth y dinesydd a chyfrifoldebau'r dinesydd hwnnw i a'i le mewn cymdeithas.⁴

Syr Ernest Ryder, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, 2016

Rwy'n sicr bod yr hyn a elwir yn Llys Ar-lein ar hyn o bryd, mor bellgyrhaeddol ag sydd bosib i'w ystyried. Bydd yn adfer mynediad at gyfiawnder mewn cyfraith sifil, theulu a chyfraith weinyddol sydd ddim wedi bod yn opsiwn, fel yr wyf wedi dweud yn y gorffennol, i gymaint o bobl yn ein cymdeithas.⁵

John Thomas, Barwn Thomas o Gwmgïedd, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr ar y pryd, 2016

- 1.6. Yn ei adolygiad o strwythur y llys sifil a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, dywedodd Yr Arglwydd Ustus Briggs bod:

Prosiect y Llys Ar-lein yn cynnig ffordd gwbl newydd a gwahanol o ddatrys anghydfodau sifil a fyddai'n gallu, os bydd yn llwyddiannus, paratoi'r ffordd ar gyfer gwneud newidiadau llawer mwy sylweddol o ran sut ymdrinnir â chyfreitha sifil na'r hyn a wneir ar hyn o bryd, i ddatrys hawliadau arian o hyd at £25,000 yn amodol ar nifer o eithriadau.⁶
- 1.7. Byddwn felly yn cynnig amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gwrandawiadau ym mhob un o'r awdurdodaethau. Bydd yna opsiynau cwbl rith, lle bydd pawb yn ymuno drwy gyswllt fideo; gwell technoleg er mwyn datblygu'r arferiad cyffredin presennol fod un neu fwy o'r partion yn gallu ymuno â gwrandawriad llys traddodiadol drwy gyswllt fideo; ac wrth gwrs bydd nifer o wrandawiadau yn parhau i gael eu gwrandawro mewn ystafell llys draddodiadol lle bydd pawb yn bresennol. Ym mhob achos, bydd systemau a thechnolegau newydd yn cynyddu hyblygrwydd ar gyfer ein defnyddwyr. Bydd gwell cyfleusterau fideo a ffôn yn lleihau'r angen i aelodau'r cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol sydd heb lawer o amser deithio yn ôl ac ymlaen ac aros o gwmpas yn ein hadeiladau llys a'n tribiwnlysoedd. Bydd hefyd yn lleihau'r amser, y risg a'r pryder sy'n gysylltiedig â chludo carcharorion.
- 1.8. Yn y llysoedd troseddol, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol (megis Gwasanaeth Eryl y Goron (GEG) a'r Heddlu) i symleiddio'r system, gan gynnwys cyflwyno systemau technoleg newydd, er mwyn sicrhau bod troseddau yn cael eu delio â nhw yn y ffordd fwyaf cymesurool a phriodol. Mae gan hyn y potensial i leihau lefelau aildroseddu yn ogystal â gwella profiadau dioddefwyr a thystion.

⁴ Araith gan Syr Ernest Ryder, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, 5ed Darlith Flynyddol Ryder: Prifysgol Bolton 'The Modernisation of Access to Justice in Times of Austerity', 3 Mawrth 2016. Tudalen 7, paragraff 20.

⁵ Araith gan John Thomas, Barwn Thomas o Gwmgïedd, Arglwydd Brif Ustus, Cinio Barnwyr Ei Mawrhydi, 6 Gorffennaf 2016, tudalen 4, paragraff 9.

⁶ Arglwydd Ustus Briggs, Adolygiad o Strwythur y Llysoedd Sifil: Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2016), tudalen 115, paragraff 12.6

Moderneiddio gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd

- 1.9. Bydd y gwaith moderneiddio sy'n cael ei wneud i'n gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael effaith sylweddol ar y gwaith gweinyddol. Gyda dros £1 biliwn yn cael ei fuddsoddi i drawsnewid ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, mae angen i ni ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion y cyhoedd – y rhai hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r rhai hynny sy'n dibynnu arno i gynnal rheolaeth y gyfraith. Ar yr un pryd, mae angen i'r gwasanaeth a ddarperir fod yn gynaliadwy ac yn effeithlon. Mae gan nifer o'n cynlluniau'r potensial i leihau ein dibyniaeth ar ystafelloedd llys a chanolfannau tribiwnlys traddodiadol a newid y ffordd yr ydym yn gweinyddu ein gwasanaeth a rhyngweithio ag unigolion sy'n defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd.
- 1.10. Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion yma er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer ein strategaeth ystadau arfaethedig. Fe fanylir ar y ffordd yr ydym yn bwriadu cynnwys y newidiadau hyn yn ein systemau yn Rhan 4 o'r ymgynghoriad hwn.

Cysylltiadau fideo a gwrandawiadau rhith

- 1.11. Er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a gwell mynediad at ein gwasanaethau rydym yn edrych ar wahanol ffyrdd o gynnal gwrandawiadau. Mae cysylltiadau fideo eisoes yn galluogi dioddefwyr ac unigolion bregus gymryd rhan mewn achosion troseddol heb iddynt orfod gweld y diffynnydd wyneb yn wyneb. Rydym hefyd yn cynnal cynadleddau dros y ffôn i reoli a symud achosion yn eu blaen yn y rhan fwyaf o awdurdodaethau.
- 1.12. Rydym nawr yn datblygu'r cysylltiadau fideo a ffôn hyn yn sylweddol, a byddwn yn gweithio'n agos â'n partneriaid cyfiawnder yn Sussex, Llundain a De Ddwyrain Lloegr ar y cynllun hwn. Bydd y prosiect hwn yn datblygu'r gallu i gynnal gwrandawiadau rhith ar gyfer achosion remand addas, gan leihau'r angen iddynt gael eu cludo i wrandawriad fydd ond yn para pum munud, a gwneud gwell defnydd o gysylltiadau fideo fel y gall tystion roi tystiolaeth heb orfod teithio i'r llys. Bydd datblygu'r dechnoleg i alluogi swyddogion heddlu roi tystiolaeth yn uniongyrchol i'r llysoedd yn fwy aml ac yn fwy dibynadwy yn sicrhau hyblygrwydd ac effeithiolrwydd, gan y bydd yn arbed amser i swyddogion heddlu a thystion sy'n aros am amseroedd llys.
- 1.13. Yn ogystal â datblygu'r dechnoleg sydd eisoes ar gael, rydym yn dylunio system 'gwrandawiadau rhith'. Mewn gwrandawriad rhith byddai'r holl gyfranogwyr yn mewngofnodi i alwad fideo o'u cyfrifiadur gan ddefnyddio eu porwr we arferol. Rydym wedi bod yn profi hyn gydag aelodau'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, aelodau o'r farnwriaeth a'n cydweithwyr o adrannau eraill o'r llywodraeth. Mi wnaethom gynnal rhagor o brofion technegol yn y Siambr Mewnfudo a Lloches ym mis Hydref 2017.
- 1.14. Byddwn yn parhau i brofi a datblygu gwrandawiadau rhith yn ystod 2018 – gan ddechrau gyda gwrandawiadau rheoli achosion syml, sy'n cynnwys unigolion proffesiynol yn unig yn delio â materion penodol. Bydd hyn yn datblygu ein dealltwriaeth o sut fydd gwrandawiadau rhith yn gweithio, eu manteision ac ymha sefyllfaoedd maent yn debygol o fod yn addas - ac, wrth gwrs, yn anaddas.

Cynnig gwasanaethau digidol

- 1.15. Rydym yn cyflwyno gwasanaethau digidol syml, technoleg fodern a ffyrdd modern o weithio er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder ym mhob awdurdodaeth. Yn y llysoedd troseddol, bydd gwasanaethau digidol newydd yn helpu i sicrhau bod achosion yn mynd drwy'r system yn llyfn a heb unrhyw oedi diangen. Y man cychwyn ar gyfer ein gwaith yw mai dim ond beth sydd raid ei wneud mewn ystafell llys draddodiadol - y rhan fwyaf o dreialon a gwrandawiadau dedfrydu - fydd yn cael ei wneud yno. Bydd gweddill y gwaith yn cael ei wneud tu allan i'r ystafell llys gan ddefnyddio technoleg fodern. Mae newid digidol felly yn rhan sylweddol o'n rhaglen i foderneiddio'r system cyfiawnder.
- 1.16. Rydym yn dilyn yr un egwyddorion er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a symlrwydd yn y llysoedd sifil, teulu a'r tribiwnlysoedd. Gan ddechrau gyda'r pwynt nad gwrandawriad traddodiadol yw'r opsiwn gorau bob tro, rydym yn mynd i wneud mwy i gefnogi partïon i ddatrys anghydfodau eu hunain, naill ai drwy eu cyfeirio'n well at opsiynau eraill, neu, fel ein proses cyfraith sifil, cynnig cyfleoedd i bartïon gytuno ar setliad drwy ddefnyddio ein systemau. Rydym eisoes yn cynnig: 'llys ar-lein' newydd ar gyfer hawliadau arian gwerth isel er mwyn cynnig ffordd symlach, fwy fforddiadwy i unigolion a busnesau ddatrys anghydfodau; gwasanaethau ar-lein i wneud cais am brofiant, neu am ysgariad; a darparu ffyrdd symlach o weithio a chynnig gwell profiadau i ddefnyddwyr yn y tribiwnlysoedd.
- 1.17. Bydd y rhai hynny sy'n defnyddio'r system cyfiawnder yn rheolaidd yn sylweddoli'r potensial sylweddol sydd yna ar gyfer gwelliant yn sgil defnyddio systemau digidol. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:
- lleihau neu gael gwared â gohiriadau oherwydd nad yw'r dogfennau cywir wedi cael eu rhannu ar yr amser cywir;
 - ffeiliau neu 'bwndeli' sydd wedi cael eu strwythuro'n iawn fydd yn osgoi gwastraffu amser mewn gwrandawiadau yn chwilio am ddogfennau perthnasol;
 - lleihau'r angen i gynnal gwrandawiadau mewn ystafelloedd llys traddodiadol dim ond er mwyn symud achosion yn eu blaen; a
 - symleiddio'r gwaith paratoi oherwydd nad yw ffurflenni papur cymhleth wedi cael eu llenwi'n gywir..
- 1.18. Ar hyn o bryd, mae 40% o'r ceisiadau papur am ysgariad yn cael eu dychwelyd oherwydd nad ydynt wedi cael eu llenwi'n gywir. Mae ein system ddigidol wedi cael ei dylunio fel bod modd cael gwared â hyn cyn belled a bo hynny'n bosib, ac o ganlyniad dim ond tua 10% o'r ceisiadau sy'n cael eu gwrthod drwy'r system – ac rydym yn gobeithio lleihau hyn ymhellach wrth i'r gwasanaeth ddatblygu. Yn debyg, cyn i ni gyflwyno ein system help i dalu ffioedd roedd 75% o'r ffurflenni papur yn cael eu gwrthod, a hynny yn bennaf oherwydd bod y ffurflen yn gymhleth ac felly nid oedd yn aml yn cael ei llenwi'n gywir. Mae'n anodd iawn cwblhau ein system ar-lein yn anghywir, ac felly erbyn hyn dim ond tua 20% o'r ceisiadau sy'n cael eu gwrthod, a hynny'n bennaf oherwydd mater cymhwysedd dilys, yn hytrach na methiant i llenwi'r ffurflen yn gywir. Gall systemau digidol helpu i sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei chasglu ar yr amser cywir.

Oriau agor hyblyg

- 1.19. Dros y misoedd nesaf byddwn yn rhoi sylw i oriau agor hyblyg mewn cyfres o gynlluniau peilot fydd yn canolbwyntio ar edrych a oes yna ffyrdd y gallwn gynnig amrediad ehangach o amseroedd gwrandawiadau i'r rhai hynny sy'n defnyddio'r llysoedd, ar yr un pryd â defnyddio ystafelloedd gwrandawiadau'n fwy effeithiol. Byddwn yn defnyddio ein profiadau presennol megis cynnal gwrandawiadau ynadon a nawdd cymdeithasol ar ddyddiau Sadwrn ac agor Llysoedd y Goron yn gynharach er mwyn i blant allu recordio eu tystiolaeth ymlaen llaw. Bydd y cynlluniau peilot yn ystyried sut all awdurdodaethau gwahanol ddefnyddio ystafelloedd ar adegau gwahanol o'r dydd a hefyd a fyddai patrymau gweithio gwahanol o fewn awdurdodaethau yn gallu gweithio'n well i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol (a hefyd edrych ar yr anawsterau a'r problemau posibl). Nid ydym wedi gwneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch canlyniad unrhyw gynlluniau peilot y byddwn yn eu cynnal.
- 1.20. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn cael eu gwerthuso'n annibynnol, a bydd y gwerthusiad yn ganolog i unrhyw benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol am oriau hyblyg. Hyd yn oed os bydd rhai, neu'r holl fodolau a brofir yn aflwyddiannus byddwn dal yn cael gwybodaeth werthfawr am anghenion a rhwystrau unigolion sy'n mynychu gwrandawiadau fydd yn hynod o ddefnyddiol wrth i ni ddatblygu ein gwasanaethau ymhellach. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau oni bai bod y gwerthusiad yn cefnogi hyn.
- 1.21. Mae'r ffordd byddwn yn trefnu ac yn cynnal y cynlluniau peilot hyn yn hanfodol; byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol cyfreithiol oherwydd nhw fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau a allai gael eu gwneud.

Gwella ein gwasanaethau yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

- 1.22. Rydym eisoes wedi llwyddo i foderneiddio peth o'n gwaith gweinyddol yn y llysoedd troseddol, drwy symud o systemau papur i systemau digidol. Ond mae angen i ni wneud llawer mwy. Mae awdurdodaethau eraill ar ei hôl hi. Mae ein gwaith yn ddibynnol iawn ar ffeiliau papur, sy'n golygu bod ein staff yn treulio gormod o amser yn gofyn am, ac yn chwilio am ddogfennau papur, copïo ac argraffu dogfennau, ffeilio a symud papur. Nid oes ganddynt amser i wneud y gwaith ardderchog maent eisiau gwneud. Yn y dyfodol bydd y rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol yn cael ei symud o adeiladau llys a thribiwnlysoedd i ganolfannau gweinyddol cenedlaethol, fydd yn sicrhau cefnogaeth weinyddol gyson, prydlon ac o ansawdd uchel. Gyda chymorth technoleg fodern, bydd y rhai hynny sy'n gweithio mewn llysoedd a thribiwnlysoedd lleol yn gallu canolbwyntio ar yr hyn sydd wirioneddol o bwys yn y system cyfiawnder: helpu a chefnogi'r cyhoedd drwy'r broses, oherwydd i nifer ohonynt bydd mynychu llys yn brofiad unwaith mewn bywyd ac yn brofiad ingol dros ben. Byddant hefyd yn gallu darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i farnwyr ac ynadon; a chreu gweithle modern a phroffesiynol ar gyfer holl ddefnyddwyr y llys a'r tribiwnlys.
- 1.23. Bydd y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd. Ni fydd ein gweithwyr yn gorfod ceisio gwneud gwaith gweinyddol a chynnal gwrandawiadau, a byddant yn gallu arbenigo mewn naill ai gwneud gwaith gweinyddol ardderchog neu gefnogi gwrandawiadau. Mae gennym gyfle i wella cynllun ein hadeiladau presennol er mwyn helpu defnyddwyr y llysoedd a'r

tribiwnlysoedd, a sicrhau prosesau diogelwch mwy modern a gwell. Mae ein gweithwyr yn ardderchog nawr - maent yn gweithio'n ddiflino, yn gwneud gwaith ardderchog yn cefnogi unigolion sy'n dod i'n llysoedd a'n tribiwnlysoedd a'r barnwyr sy'n gweithio yno. Ond maent yn gwneud hyn ar yr un pryd â cheisio gwneud mwy nag un swydd, a heb yr adnoddau modern ddylai fod y norm yn yr 21ain ganrif. Bydd ein gwasanaeth newydd gyda'r adnoddau digidol diweddaraf a hyfforddiant a datblygiad perthnasol yn golygu y bydd ein staff medrus yn gallu darparu cefnogaeth pan fydd ei hangen, gan adael i bawb wybod beth sy'n digwydd trwy gydol eu hamser yn y llys neu'r tribiwnlys.

1.24. Mae'r adborth cychwynnol rydym wedi'i gael gan y rhai hynny sy'n defnyddio'r systemau newydd wedi bod yn eithriadol o bositif.

1.25. O ran ein systemau newydd ar gyfer ceisiadau profiant ar-lein:

"Hawdd iawn i'w defnyddio ...un o'r gwefannau hawsaf i'w defnyddio sydd o gwmpas"

"mae'r gwasanaeth ar-lein yn llawer gwell na'r system bapur...un o'r prif fanteision yw eich bod yn gallu cymryd y datganiad cyfreithiol [llw] ar-lein."

1.26. Mae system ar-lein Hawlio Arian yn y Llys Sifil wedi cael ei disgrifio fel:

"syml ac yn hawdd i'w defnyddio"

"gwasanaeth ardderchog, byddwn yn cynghori unrhyw un sydd mewn sefyllfa debyg i fy un i i'w ddefnyddio"

1.27. Mae ein gwasanaeth ar-lein Help i Dalu Ffioedd, sydd wedi cymryd lle ffurflen bapur 26 tudalen, wedi cael graddfa bodlonrwydd o 86%. Mi ddywedodd y rhai hynny sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth ei fod yn:

"byr a chryno"

"cymorth mawr i bobl fel fi gan na fuaswn yn gwybod lle i ddechrau"

1.28. Mae ein gwasanaeth ysgaru ar-lein newydd yn gwneud y broses anodd o gael ysgariad yn haws ac yn llai drudfawr. Mae'r rhai hynny sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth wedi'i ddisgrifio fel:

"ardderchog, proses di-boen a llawer haws na'r ffurflen bapur"

"Ni allaf gredu pa mor gyflym ydyw; mae'n ardderchog"

1.29. Mae'r Rhaglen Platform Cyffredin yn cyflwyno systemau digidol newydd mewn ymgais i sicrhau bod asiantaethau yn y system cyfiawnder troseddol yn cydweithio'n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae elfennau o'r rhaglen sydd wedi cael eu profi a'u cyflwyno hyd yma wedi cael adborth positif gan ddefnyddwyr y llys. Mi ddywedodd y rhai hynny a ddefnyddiodd y gwasanaeth cofnodi ple ar-lein ei fod yn:

"perffaith, piti na fyddai pob gwasanaeth y llywodraeth a gwasanaethau eraill yn gweithio fel hyn"

"hawdd iawn i'w ddefnyddio – gwnaeth sefyllfa boenus ychydig yn well"

1.30. Dywedwyd bod y Trac Awtomataidd ar gyfer Rheoli Achosion, a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Transport for London yn:

"clir, hawdd i'w ddefnyddio, syml a hwylus"

1.31. Dywedodd Transport for London bod y system newydd:

“yn rhoi mwy o amser i'n Tîm Ymchwiliadau ac Erlyniadau dargedu ymddygiad anghyfreithlon a dod â'r rhai hynny sy'n torri'r gyfraith gerbron llys”

1.32. Wrth i ni datblygu'r mentrau a amlinellwyd yn y rhan hon, byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr proffesiynol i sicrhau ein bod yn bodloni eu hanghenion nhw. Byddwn hefyd yn gwella'r gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig i'r barnwyr a'r ynadon, ac yn creu rolau newydd ar gyfer staff fydd wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod y systemau digidol yn gweithio bob tro a drwy'r amser, wrth i ni ddefnyddio'r cyfleusterau hyn hyd yn oed yn fwy yn y dyfodol.

1.33. Drwy weithio'n agos gyda'n gilydd, bydd ein gweithwyr yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a'r canolfannau gweinyddol yn darparu gwasanaeth llyfn, o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd nes bydd achos gael ei ddatrys.

2. Rhan 2. Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd – y stori hyd yma

2.1. Cafodd ystad bresennol y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ei hetifeddu pan grëwyd GLITEM. Llai nag 20 mlynedd yn ôl roedd tua 50 o sefydliadau yn gwneud y gwaith sydd nawr yn cael ei wneud gan GLITEM. Mae hyn wedi arwain at ystad na chafodd yn ei hanfod ei ffurfio fel rhan o broses a oedd wedi'i threfnu, ond yn hytrach cafodd ei hetifeddu oddi wrth sefydliadau gyda gwahanol safonau a blaenoriaethau, gan roi nifer o adeiladau gwahanol mewn nifer o leoliadau i GLITEM. Ar hyn bryd, mae yna dros 60 o drefi yng Nghymru a Lloegr sydd â mwy nag un adeilad llys neu dribiwnlys, a dros 20 gyda mwy na dau. Mae yna fap o ystad bresennol GLITEM ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ymgynghoriadau blaenorol ar yr ystad

2.2. Mae lleoliadau presennol y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn dilyn dau ymarfer ymgynghori cenedlaethol (yn 2010 a 2015) a phenderfyniadau dilynol a wnaethpwyd i gyfuno lleoliadau a oedd yn cael eu tanddefnyddio gan sicrhau arbedion i'r trethdalwyr a buddsoddiad yn y gwaith o ddiwygio a gwella gwasanaethau. Hefyd cynhaliwyd ymgynghoriad ar Lysoedd Ynadon Hammersmith a Camberwell Green yn 2016.

2.3. Cafodd ymgynghoriad Rhaglen Diwygio Ystad y Llysoedd (CERP) ei gyhoeddi gan Wasanaeth Llysoedd EM yng Ngorffennaf 2010. Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys Llysoedd y Goron na'r tribiwnlysoedd (roedd y tribiwnlysoedd yn cael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar y pryd). Cafodd 140 o lysoedd (92 o lysoedd ynadon a 48 o lysoedd sirol) eu cau o ganlyniad i ymgynghoriad CERP ar draws Cymru a Lloegr o blith y 530 o adeiladau gweithredol oedd yna ar y pryd. Daeth 75 adeilad dribiwnlys yn rhan o ystad GLITEM pan gafodd ei greu. Cafodd pum ymgynghoriad unigol ar gau llysoedd eu cyhoeddi yn 2013 a 2014.

2.4. Cafodd ymgynghoriad cenedlaethol arall ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2015 ac fe ymgynghorwyd ar ddau lys ynadon yn Llundain ym mis Medi 2016. Gyda'i gilydd arweiniodd hyn ar gau 121 o adeiladau (gan gynnwys cyfuno adeiladau, h.y. lle'r oedd yr adeilad a oedd yn cael ei gau yn agos at adeilad arall lle byddai'r gwaith yn gallu cael ei symud iddo) gan leihau'r nifer o lysoedd gweithredol ac adeiladau dribiwnlys o 460 i 339.

2.5. Mae ein gwaith dadansoddi yn dangos pan fydd pob un o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd hyn wedi'u cau, bydd y rhan fwyaf o'r cyhoedd dal yn gallu teithio i'w llys neu dribiwnlys agosaf ar gludiant cyhoeddus a chyrraedd o fewn dwy awr – 93% ar gyfer Llysoedd y Goron, 95% ar gyfer llysoedd ynadon a 99% ar gyfer llysoedd sirol.

2.6. Diwedd Tachwedd 2017, roedd yna 350 o lysoedd a thribiwnlysoedd yn ystad GLITEM, yn gwrando amrywiaeth o achosion.

Awdurdodaeth	Nifer o safleoedd sy'n gwrando achosion
Llys y Goron	94
Llys Ynadon	160

Llys Sirol	210
Tribiwnlys	141

Sylwch: mae yna fwy nag un awdurdodaeth mewn nifer o'r adeiladau ac felly nid yw'r rhifau hyn yn dynodi cyfanswm y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

- 2.7. Ar ôl gweithredu'r penderfyniadau i gau canolfannau sydd wedi'u cyhoeddi hyd yma, bydd gennym oddeutu 339 o adeiladau llys a thribiwnlysoedd gweithredol fydd yn darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Bydd 248 o'r rhain o fewn 5 milltir, 286 o fewn 10 milltir, a 310 o fewn 15 milltir i adeilad GLITEM arall.

Hyblygrwydd

- 2.8. Yn ystod y cyfnod lle'r ydym wedi bod yn edrych ar gapasiti'r ystad, mae'r angen am fwy o hyblygrwydd wedi cynyddu. Mae nifer o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd yn ein hystad yn anhyblyg ac nid yw'n hawdd eu haddasu i wrando mathau eraill o achosion yn gyflym. Maent wedi cael eu cynllunio a'u cynnal yn unol â gofynion awdurdodaethau penodol a oedd yn canolbwyntio ar ddyluniad yn hytrach na'r canlyniad.
- 2.9. Yn rhannol, mae'r diffyg hyblygrwydd yn ganlyniad y safonau a nodwyd yng Nghlanllaw Safonau a Dyluniad y Llysoedd 2010 sy'n hynod o bendant am ddyluniad a chynllun ystafelloedd gwrandawiadau ar gyfer gwahanol awdurdodaethau. Mewn perthynas ag ystafelloedd gwrandawiadau ynadon, mae Canllaw 2010 yn manylu ar bedwar math o ystafell llys gyda chyfanswm o wyth cynllun gwahanol ar gyfer yr ystafelloedd. Mae hyn yr un fath ar gyfer yr awdurdodaethau eraill, gyda'r Canllaw yn nodi nifer o gynlluniau ystafell ar gyfer ystafelloedd gwahanol. Mae'r lefel o gyfarwydddeb yn y mathau hyn o ystafelloedd yn golygu ei fod yn anodd addasu cynllun yr ystafell wrando ar gyfer awdurdodaethau eraill, sydd yn ei dro yn arwain at ystafell anhyblyg.
- 2.10. Mae Canllaw 2010 hefyd yn cynnwys rhestr o'r adnoddau gweinyddol sydd eu hangen gogyfer â math penodol o ystafell wrando. Mae hyn yn lleihau'r opsiynau sydd ar gael o ran cynllun yr ystafell ac felly mae yna lai o gyfleoedd i ddefnyddio'r ystafell yn hyblyg. Ar ei waethaf, gall hyn arwain at ystafelloedd yn cael eu gadael yn wag oherwydd nad ydynt yn addas ar gyfer gwaith arall; a hefyd mae'n golygu bod gwrandawiadau sy'n addas ar gyfer ystafelloedd llai ffurfiol yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd sy'n rhy ffurfiol neu eu bod yn cael eu cynnal mewn rhan fach o ystafell eithriadol o fawr.
- 2.11. Mae ein staff a'r farnwriaeth yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau o'n hadeiladau sydd yn rhy aml yn cael ei wneud yn anoddach ac nid yn haws oherwydd y cyfleusterau sydd ar gael ar eu cyfer. Mae'r diffygion yn ystad bresennol y llysoedd a'r tribiwnlysoedd wedi cael eu hamlygu gan y farnwriaeth, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol a defnyddwyr fel ei gilydd. Fe eglurir beth yw ein cynlluniau ar gyfer llunio canllaw dylunio newydd yn Rhan 4.

Gwaith cynnal a chadw

- 2.12. Mae yna gostau cudd ychwanegol yn gysylltiedig ag ystad o lysoedd a thribiwnlysoedd anhyblyg a gafodd ei hetifeddu. Ers degawdau mae'r arian sydd

wedi cael ei wario ar ein hadeiladau wedi cael ei daenu'n rhy denau. Mae'r arian bron iawn wedi gorfod cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl ar ymateb i broblemau; nid ydym wedi gallu rhoi rhaglen o waith cynnal a chadw ataliol mewn lle.

- 2.13. Mae'r amcangyfrifon presennol o ran yr ôl-groniadau gyda'r gwaith cynnal a chadw yn cyfateb i oddeutu £400 miliwn. I roi hyn yn ei gyd-destun, gall gosod to newydd ar adeilad o faint canolig gostio tua £0.75 miliwn a gall gostio tua £1.5 miliwn i osod system wresogi ac awyru newydd. Ond, mae ein hamcangyfrifon yn seiliedig ar waith yr ydym yn ymwybodol ohono yn unig. Er mwyn taclo'r her hon, rydym wedi trefnu rhaglen o arolygon adeiladau proffesiynol er mwyn cael data cywir ar swmp y gwaith sydd angen ei wneud a'r gost. Rydym yn cydnabod nad yw ystad lluddedig sydd heb ei chynnal a'i chadw'n briodol yn adlewyrchu pwysigrwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud, nac yn darparu amgylchedd pleserus ar gyfer ein staff, gweithwyr proffesiynol neu ddefnyddwyr, a hefyd nid yw'n annog y rhai hynny sy'n ei defnyddio i'w thrin â pharch - gall un darn o graffiti mewn cell dyfu'n gyflym iawn os nad yw'n cael ei daclo. Hefyd, gall yr angen i ddefnyddio cronfeydd cyfyngedig mor effeithiol â phosibl achosi gormod o reolaeth, gan fod prosesau llym yn cael eu rhoi mewn lle i sicrhau fod yna ddigon o arian ar gael i daclo'r prif flaenoriaethau.
- 2.14. Rydym i gyd yn gwybod ei bod yn aml yn cymryd gormod o amser i gomisiynu a sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei wneud i'n hadeiladau. Mae'r gwaith cynnal a chadw lleiaf, megis gosod carped neu ailbeintio wal fechan yn rhan o broses sy'n golygu ei bod yn y gorffennol wedi cymryd yn agos at ddeufis i'r gwaith gael ei wneud. Mae angen i ni newid hynny. Rydym yn disgrifio'r ffordd yr ydym yn cynllunio i wella ein prosesau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw yn Rhan 4 o'r ymgynghoriad hwn.
- 2.15. Yn 2016, mi wnaeth JUSTICE gyhoeddi adroddiad dan y teitl *What is a Court?* Mi wnaeth yr adroddiad amlygu'r nifer o'r materion sydd wedi'u nodi yma ac mi wnaeth archwilio natur a gofynion ystafell lys neu driwlynlys modern a phwysleisiodd yr angen am hyblygrwydd:
- Mae'r ystad [y llysoedd a'r triwlynlys] yn parhau i fod wedi'i seilio ar arferion a phrosesau sy'n perthyn i gyfnod gwahanol. Roedd ffyrdd traddodiadol o weithio yn galw am lawer o adeiladau a staff clerigol. Yr hyn sydd ei angen nawr yw ystad sy'n hyblyg ac sy'n gallu ymateb yn effeithiol dros amser i newidiadau yn yr arian sydd ar gael - gan gynnwys drwy gymorth cyfreithiol - a newidiadau technolegol mewn arferion gweithio. Yn amlwg, ni ddylid trawsnewid yr ystad dim ond oherwydd faint o arian sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn hytrach, dylid ei haddasu fel bod modd rhagweld y newidiadau fydd yn digwydd dros amser.⁷
- 2.16. Mae graddfa ac amrywioldeb yr her – ond hefyd y cyfle i wneud newidiadau positif – a gyflwynir gan yr ystad bresennol i'w gweld yn yr ychydig o enghreifftiau isod, sy'n amrywio o gyfleusterau pwrpasol sydd bron iawn yn newydd i adeiladau'r 19eg ganrif sydd wedi'u haddasu.

Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion

<http://www.google.co.uk/url?sa=i&rct=j&q=&esrc=s&source=images&cd=&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwiX7IL8g6fVAhVDZFAKHd0xAjsQjRwIBw&url=http://www.dentoncorkerma>

⁷ JUSTICE, *What is a Court?* (2016), tudalen 6

rshall.com/projects/manchester-civil-justice-centre/&psig=AFQjCNFiotZR6Rk34lkmG97_6osCHwAUWw&ust=1501161332222372

2.17. Agorodd Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion yn 2007 ac mae'n adeilad llys mawr a modern sy'n gwrando achosion sifil, teulu ac achosion tribiwnlys. Mae yna 52 o lysoedd yn yr adeilad, ac mae dros 300 o staff a barnwyr yn gweithio yno. Mae dyluniad yr adeilad yn eithaf unigryw ac mae'n un o adeiladau eiconig Manceinion. Mae yno ardaloedd gweithio golau ac awyrog i'r staff, swyddfeydd ar gyfer y farnwriaeth ac amrywiaeth eang o gyfleusterau. Mae'r adeilad yng nghanol y ddinas gyda chysylltiadau trafnidiaeth ardderchog i weddill Manceinion Fwyaf. Rhwng mis Mehefin 2016 a mis Gorffennaf 2017 mi ymgymerodd y ganolfan â llwythi gwaith ychwanegol gan fod Llys Sirol Altringham, Llys Sirol Tameside, Llys Sirol Bolton, Llys Sirol Bury a Llys Sirol Oldham wedi'u cau.



2.18. Mae tua thri chwarter o'r gofod sydd yna yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion yn cael ei ddefnyddio gan y staff a'r farnwriaeth sy'n ymgymryd â busnes y llys. Fe wneir gwaith gweinyddol sydd ddim yn uniongyrchol cefnogi gwrandawiadau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn y chwarter arall. Byddai modd cynnal rhagor o wrandawiadau yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion sy'n golygu fod yna botensial i symud gwaith mwy o adeiladau i'r adeilad addas hwn sydd mewn lleoliad da.

Llys y Goron Reading

2.19. Mae Llys y Goron Reading yn adeilad rhydd-ddaliad. Mae hefyd yn adeilad rhestredig Gradd II ers 1978 ac mae wedi'i leoli mewn lleoliad canolog sydd ond deg munud ar droed o Orsaf Drenau Reading. Mae yna ddwy ran i'r adeilad; cafodd yr adeilad gwreiddiol ei agor yn 1861 a chafodd ei foderneiddio a'i wneud yn fwy yn y 1970au fel ei fod yng nghanolfan Llys y Goron chwe ystafell llys. Er bod yr hen ran o'r adeilad wedi'i restru, ac felly rhaid diogelu ffasâd ac adeiladwaith yr adeilad, mae yna botensial i ddatblygu'r rhan newydd sydd yng nghefn yr adeilad a'r tu mewn. Mae yna le yn yr adeilad i agor rhagor o ystafelloedd llys ac mae yna botensial, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, i'w ymestyn. Mae'r system wresogi a'r system awyru angen sylw ac mae angen ailaddurno'r adeilad.



2.20. Mae yna bedwar adeilad llys a thribiwnlys yn Reading, ac mae yna botensial i fuddsoddi yn Llys y Goron Reading er mwyn i'r holl waith gael ei wneud o un adeilad safonol.

Amwythig

Llys y Goron Amwythig (Neuadd y Dref) a Llys Ynadon Amwythig (Preston Street Street)



- 2.21. Mae'r Amwythig yn enghraifft o le'r ydym eisoes yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i wella ein hystad a gwella effeithlonrwydd yn yr un modd.
- 2.22. Caewyd Llys Ynadon Amwythig (Preston Street) ym mis Mawrth 2016 ac mae'r gwaith wedi cael ei integreiddio'n llwyddiannus i Lys Ynadon Telford sydd gerllaw sydd â chyfleusterau da. Roedd yn un o ddau lys ynadon yn Sir Amwythig ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio llawer, dim ond deuddydd yr wythnos oedd gwrandawiadau'n cael eu rhestru yno. Mae adeilad Llys Ynadon Amwythig, sy'n adeilad da ac y gellir ei gynnal a'i gadw, nawr yn cael ei addasu i ymgymryd â gwaith Llys y Goron Amwythig.
- 2.23. Bydd hyn yn cymryd lle'r cyfleusterau Llys y Goron aneffeithiol sydd yn Neuadd y Dref lle nad oes yna ystafelloedd neu fynedfa ar wahân i unigolion bregus a thystion. Er mwyn atal eraill rhag ymyrryd â thystion, yn aml iawn trefnir iddynt ddefnyddio mynedfa swyddfeydd gweinyddol Llys y Goron. Nid oes yna fynedfa ar wahân i ddiffynyddion sydd dan glo ac sy'n dod o gerbydau'r ddalfa, ac felly maent yn cael eu hebrwng ar droed drwy ran o Neuadd y Dref sy'n cael ei defnyddio gan Gyngor Amwythig. Mae'r ystafelloedd llys mewn cyflwr gwael ac mae'r to yn gollwng pan fydd yn bwrw glaw yn drwm. Byddai rhaid gwario llawer o arian er mwyn uwchraddio'r adeilad i'r safon angenrheidiol.

Leeds

- 2.24. Mae gan Leeds bum llys o fewn radiws o 2 filltir – cawsant eu hetifeddu pan grëwyd GLITEM. Mae'n enghraifft dda o le y mae gan canolbwyntio ein adnoddau ar nifer llai o safleoedd y potensial i ddarparu cyfleusterau o ansawdd gwell i Leeds yn ogystal â lleihau'r costau a chynyddu effeithiolrwydd.

Canolfan Llys Cyfun Leeds

The Courthouse, 1 Oxford Row, Leeds LS1 3BG

- 2.25. Mae Canolfan Llys Cyfun Leeds yn adeilad eithaf mawr a gafodd ei adeiladu yn 1978, ac sy'n cynnwys 28 o ystafelloedd
- 2.26. GLITEM sy'n berchen ar yr adeilad ac mae wedi'i leoli mewn safle ardderchog yng nghanol y ddinas. Fe gynhelir gwrandawiadau Llys y Goron a gwrandawiadau sifil yma yn ogystal â gwrandawiadau teulu pan fydd angen. Er bod rhannau o'r adeilad

yn addas i'r pwrpas, mae yna lawer o ddiffygion yno, yn enwedig o ran diogelwch pobl ac eiddo. Mae gan yr adeilad gysylltiadau trafndiaeth ardderchog i weddill Gorllewin Swydd Efrog.

Llys Ynadon a Llys Teulu Leeds Westgate, Leeds, Gorllewin Swydd Efrog LS1 3BY

2.27. Adeiladwyd Llys Ynadon a Llys Teulu Leeds yn 1993, ac mae yno 21 o ystafelloedd gwrandawiadau.



2.28. GLITEM sy'n berchen ar yr adeilad hwn. Fe leolir dros 80 o staff yma ac mae Uned Gefnogi Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Lloegr wedi'i lleoli ar y 5ed llawr lle mae tua 30 o staff yn gweithio. Mae'r adeilad yn addas i'r pwrpas ac mae yng nghanol y ddinas gyda chysylltiadau trafndiaeth ardderchog i weddill Gorllewin Swydd Efrog.

Tribiwnlys Cyflogaeth Leeds

4th Floor, City Exchange, 11 Albion Street, Leeds, Gorllewin Swydd Efrog LS1 5ES

2.29. Mae hwn yn adeilad mawr a modern yng nghanol Leeds ac mae ar brydles ar hyn o bryd i GLITEM tan 2021. Mae staff y Tribiwnlys Cyflogaeth wedi'u lleoli yma ac fe gynhelir gwrandawiadau ar y 4ydd llawr. Mae tua 20 aelod o staff yn gweithio yn yr adeilad. Ar hyn o bryd fe restrir achosion mewn saith ystafell wrandawiadau. Mae'r adeilad yng nghanol y ddinas gyda chysylltiadau trafndiaeth ardderchog i weddill Gorllewin Swydd Efrog.



Leeds York House - Leeds Tribunal

31 York Place, Leeds, Gorllewin Swydd Efrog, LS1 2ED

2.30. Mae'n adeilad addas i'r pwrpas sydd ar hyn o bryd yn delio â gwaith Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (SSCS). Mae'n adeilad eithaf bychan gyda phedair ystafell wrandawiadau. Mae'r farnwriaeth ac eraill hefyd yn defnyddio wyth ystafell yma (pedwar Barnwr Preswyl, un meddyg, un gweithiwr achos tribiwnlys, un cofrestrydd ac un Barnwr sy'n ymweld). Mae'r adeilad ar brydles ar hyn o bryd tan 2021 ac mae yna ragor o le yno ar ein cyfer petawn ei angen.



Coverdale House

2.31. Mae Coverdale House ar brydles tan 2020. Mae'r adeilad hwn yn delio â gwaith teulu ac mae yng nghanol y ddinas gyda chysylltiadau trafnidiaeth ardderchog. Mae yna saith ystafell llys a saith siambr farnwrol yn yr adeilad. Mae tua 20 o staff yn gweithio yn yr adeilad. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael ac mae yna broblemau gyda'r system wresogi a'r system awyru.



3. Rhan 3. Cynigion ar gyfer cau canolfannau

Adolygu ein hystad

- 3.1. Wrth i ni lunio a datblygu ein strategaeth, rydym yn parhau i gadw golwg manwl ar ein hystad weithredol. Gwneir hyn fel y gallwn ddiwallu ein dyletswydd i sicrhau mynediad at gyfiawnder i bawb a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar yr un pryd â sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario ar ddarparu ein gwasanaethau yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl. Wrth i ni adolygu'r ystad bresennol rydym yn ystyried faint mae pob llys neu dribiwnlys yn cael ei ddefnyddio, cyflwr yr adeilad, y potensial i allu cynnal y gwrandawiadau yn rhywle arall a pha mor bell yw'r adeilad oddi wrth adeilad llys neu dribiwnlys arall.
- 3.2. Yn Rhan 1 mi wnaethom amlinellu amryw o fesurau diwygio fydd yn moderneiddio mynediad at y llysoedd a'r tribiwnlysoedd drwy fentrau megis gwasanaethau ar-lein a gwrandawiadau rhith. Fodd bynnag, bydd ein hadeiladau llys a'n tribiwnlysoedd yn parhau i fod â swyddogaeth bwysig er mwyn gallu darparu gwasanaeth cyfiawnder effeithiol. Mae angen i'n hadeiladau fod yn effeithlon, ac mae angen i ni eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian.
- 3.3. Yn benodol, rydym yn cynnal yr adolygiad hwn gan ystyried ein hegwyddorion ystad cenedlaethol presennol a nodir isod, a gan edrych ar gapasiti safleoedd eraill i ymgymryd â'r gwaith, yn seiliedig ar ein prosesu a'r dechnoleg bresennol. Nid ydym yn rhagdybio beth allai'r buddion fod yn y dyfodol yn sgil moderneiddio'r gwasanaeth ymhellach.

Egwyddorion yr ystad

- 3.4. Mi wnaeth ymgynghoriad 2015 bennu'r egwyddorion cyffredinol, ac yn dilyn hyn cynhaliwyd asesiad o addasrwydd ar bob adeilad er mwyn penderfynu pa rai i'w cau. Mae Bwrdd GLITEM yn defnyddio'r egwyddorion i arwain y broses gwneud penderfyniadau pan fydd yn penderfynu pa lysoedd a thribiwnlysoedd i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad cychwynnol ac, ar ddiwedd y broses, pa lysoedd a thribiwnlysoedd i'w hargymell eu cau i'r Arglwydd Ganghellor.
- 3.5. Mae egwyddorion presennol diwygio'r ystad wedi cael eu rhannu'n dair thema: sicrhau mynediad at gyfiawnder; darparu gwerth am arian; a sicrhau effeithiolrwydd yn yr hir dymor.

Sicrhau mynediad at gyfiawnder

- Sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effaith posibl cau llysoedd a thribiwnlysoedd ar ddefnyddwyr proffesiynol a defnyddwyr lleyg, ystyried amseroedd teithio i ddefnyddwyr, heriau mynediad at gyfiawnder mewn ardaloedd gwledig ac unrhyw weithrediad lliniarol, gan gynnwys cael cyfleusterau mewn canolfannau dinesig lleol ac adeiladau eraill i sicrhau mynediad lleol, TGCh modern a rhestru mwy hyblyg pan fyddai cynnydd sylweddol mewn amseroedd teithio.
- Ystyried anghenion y defnyddwyr, ac yn arbennig y dioddefwyr, y tystion a'r rhai sy'n fregus.

- Cefnogi gofynion asiantaethau eraill fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwasanaethau cymdeithasol, heddluoedd a Cafcass.

Darparu gwerth am arian

- Lleihau costau rhedeg presennol yr ystad a chostau rhedeg yr ystad yn y dyfodol.
- Gwneud y mwyaf o'r arian cyfalaf a geir o'r ystad yn sgil gwerthu adeiladau er mwyn ei ail-fuddsoddi yn GLITEM.

Sicrhau effeithiolrwydd yn yr hirdymor

- Lleihau'r ddibyniaeth ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael a chael gwared ag adeiladau sy'n anodd neu'n ddrud naill ai i'w haddasu neu i'w diweddarau.
- Symud tuag at ystad sydd ag adeiladau mwy sy'n hwyluso'r gwaith o restru busnes y llys a'r tribiwnlys yn fwy effeithlon a hyblyg, a hefyd sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr y llys o ran pa bryd fydd eu hachosion yn cael eu gwrando.
- Cynyddu'r gallu i ddefnyddio'r ystad mewn modd hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol, ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau sifil, teulu a'r tribiwnlys.
- Symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiaidau un pwrpas, gan edrych am gyfleoedd i grynhoi swyddogaethau swyddfa cefn lle gallant gael eu cyflawni'n fwyaf effeithlon.
- Gwella'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system yn gyfan gwbl, gan fanteisio ar dulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Cynyddu'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad ble bynnag y bo'n bosibl heb ystyried ffiniau gweinyddol presennol.

3.6. Mae adolygu ein hystad wedi golygu ein bod wedi adnabod saith adeilad llys lle'r ydym yn credu y gallwn gyfiawnhau cau'r llys gan ddefnyddio ein hegwyddorion ystad presennol, yn seiliedig ar arferion cyfredol y llys a heb gymryd i ystyriaeth rhaglenni diwygio eraill yn y dyfodol. Mae ein proses ar gyfer adnabod llysoedd i'w cau yng Nghanol Llundain yn wahanol ac felly manylir ar hyn mewn adran ar wahân isod.

3.7. Gweler isod rhagor o fanylion ar y llysoedd yr ydym yn ymgynghori arnynt ochr yn ochr â'n ymgynghoriad ehangach ar ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn darparu ymateb cydamserol ar y safbwyntiau a roddwyd ar y strategaeth gyffredinol hon ac ar yr ymgynghoriadau i gau'r llysoedd.

Tu allan i Ganol Llundain

3.8. Mae ein hadolygiad diweddaraf o'r ystad bresennol wedi adnabod saith adeilad yr ydym yn credu y gallwn symud ohonynt yn seiliedig ar y defnydd a wneir ohonynt, cyflwr yr adeiladau a'r gallu i ymgymryd â'r gwaith mewn lleoliad arall sydd o fewn pellter teithio rhesymol. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r asesiad yn ddibynnol ar y

trawsnewidiad angenrheidiol o ran y ffordd yr ydym yn gweithio sy'n cael ei drafod yn y papur ymgynghori hwn.

Y llysoedd hyn yw:

- Llys Ynadon a Llys Sirol Banbury a Llys Ynadon Maidenhead (mewn ymgynghoriad sengl ar ystad y llysoedd yn Nyffryn Tafwys;
- Llys Ynadon Caergrawnt;
- Llys Ynadon Chorley a Llys Ynadon Fleetwood (mewn ymgynghoriad sengl ar ystad y llysoedd yn Sir Gaerhirfryn;
- Llys Ynadon Northallerton; a
- Llys Sirol Wandsworth, ar y cyd â Llys y Goron Blackfriars – gweler isod – mewn ymgynghoriad sengl ar ystad y llysoedd yn Llundain.

3.9. Mae dogfennau ymgynghori manwl ar gyfer pob llys wedi cael eu cyhoeddi ar-lein yn www.gov.uk/moj. Mae pob dogfen yn cynnwys datganiad cydraddoldeb rhanbarthol ac asesiad o effaith, a gyhoeddir ar wahân.

Ystad llysoedd a thribiwnlysoedd Canol Llundain

3.10. Bydd GLITEM yn defnyddio'r un dull a'r un egwyddorion diwygio wrth ystyried ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn Llundain fel y mae'n gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn fwy cymhleth yn Llundain. Mae hyn oherwydd bod llawer iawn o leoliadau yn Llundain, yn unol â'i safle fel canolfan gyfreithiol fyd-eang ac mae hefyd yn cynnwys safleoedd cenedlaethol proffil uchel megis Y Llysoedd Barn Brenhinol a'r Llys Troseddol Canolog. Hefyd mae llawer o'r adeiladau yn agos at ei gilydd gyda chysylltiadau trafndiaeth da rhyngddynt, ac mae yna nifer fach o safleoedd sydd o werth uchel yng nghanol Llundain.

3.11. Mae tua thraean o'r arian ar gyfer diwygio GLITEM yn dod o werthu adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd rhydd-ddaliadol nad oedd eu hangen mwyach. Er nad gwerth adeilad llys neu dribiwnlys fydd y brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch ein hystad, ni ddylid ei anwybyddu yn gyfan gwbl; o ystyried y nifer fawr o adeiladau a chysylltiadau trafndiaeth da sydd yn Llundain, mae'n bosib y gallwn gyfuno'r adeiladau hyn hyd yn oed yn fwy a byddai hyn yn rhyddhau symiau mawr o arian i'w ail-fuddsoddi i wella gweddill yr ystad a'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.

3.12. O ganlyniad i'r broses hon, rydym yn argymhell bod Llys y Goron Blackfriars (Atodiad E) yn cael ei gau ac yn nodi'r sgôp ar gyfer cyfuno adeiladau ymhellach, ar yr amod bod y capasiti cyffredinol yn cael ei reoli a bod llys newydd yn cael ei agor yn Ninas Llundain⁸.

⁸ Ar 9 Hydref 2017, mi wnaeth GLITEM a Chorfforaeth Dinas Llundain gyhoeddi ein bod yn cydweithio ar gynnig ar y cyd ar gyfer datblygu canolfan llys cyfun newydd yn Ninas Llundain. Y bwriad yw y byddai llys newydd yn cymryd lle Llys Sirol Maer a Dinas Llundain a Llys Ynadon Dinas Llundain, yn ogystal â darparu Llys y Goron ychwanegol ar gyfer creu canolfan arbenigol newydd ar gyfer gwaith twyll difrifol a seiber droseddau. Mae hwn yn gyfle i wella'n sylweddol

4. Rhan 4. Ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol

- 4.1. Bydd ein rhaglen ddiwygio yn trawsnewid y ffordd mae ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn gweithredu. Bydd moderneiddio'r ystad yn darparu ffyrdd newydd i bobl gael mynediad at y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Bydd gan lawer o'r newidiadau y bu i ni eu hamlinellu yn Rhan 1 y potensial i newid y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadeiladau, eu hyblygrwydd a'u lleoliad. Wrth i'r rhaglen ddiwygio fynd yn ei blaen mae'n hanfodol ein bod yn ystyried newidiadau pellach i'n ystad ochr yn ochr â'r rhaglen foderneiddio. Rydym wastad wedi adolygu ein hystad weithredol a nawr mae angen i ni wneud hynny yn erbyn gwasanaeth sy'n trawsnewid yn hynod o gyflym.
- 4.2. Yn y rhan hon o'r ymgynghoriad byddwn yn egluro sut rydym yn bwriadu gwneud hyn. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i egwyddorion yr ystad a gyfeiriwyd atynt yn Rhan 3 ac yn edrych ymlaen at gyflawni ein rhaglen i ddiwygio'r llysoedd. Byddwn yn egluro'r ffactorau yr ydym yn bwriadu cymryd i ystyriaeth pan fyddwn yn asesu adeiladau penodol yng nghyd-destun y Rhaglen Ddiwygio – boed a ddylem gadw a gwella neu gael gwared â safleoedd penodol. Wrth i ni baratoi ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr ymatebion a gafwyd yn ofalus yn ogystal â mewnbwn yr adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth a oedd ar gael (a drafodir yn fanylach ar dudalen 55), a byddwn yn cymryd y rhain i ystyriaeth wrth i ni gymeradwyo a chyhoeddi ein hegwyddorion ar gyfer yr ystad yn y dyfodol. Yn dilyn hyn, byddwn yn datblygu ein rhagolygon ar faint a lleoliad ein hadeiladau yn 2022, a'n cynllun ar gyfer trawsnewid yr ystad.
- 4.3. Wrth i ni drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, mae angen i ni ystyried sut mae ein dewisiadau a'n penderfyniadau am ein hystad yn cyd-fynd â'r egwyddorion cyffredinol presennol – sicrhau mynediad at gyfiawnder, darparu gwerth am arian a sicrhau effeithiolrwydd yn yr hirdymor. Er credwn yn gyffredinol bod yr egwyddorion hyn yn parhau i fod yn gadarn, mae'r Rhaglen Ddiwygio ehangach yn cyflwyno rhagor o gyfleoedd ac angen i ystyried beth mae'r egwyddorion hyn yn ei olygu yn y cyd-destun hwnnw.
- 4.4. Mae tri amcan craidd yn cefnogi ein strategaeth a'n safiad i gefnogi'r egwyddorion hyn:
- Mae angen i ni **foderneiddio ein hystad** er mwyn ei alinio'r â'r gwasanaethau modern yr ydym yn eu darparu, gan gynnwys darparu rhai gwasanaethau i ffwrdd o adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd traddodiadol, darparu gwasanaethau ar-lein a chynnal gwrandawladau rhith. Bydd newidiadau i sut bydd gwasanaethau yn cael eu darparu ymhen amser yn arwain at newidiadau i edrychiad, teimlad a ffurfwedd ein hadeiladau;
 - Mae angen i ni barhau i **wella effeithiolrwydd ein hystad** a mwyhau'r defnydd a wneir o'r adeiladau yr ydym yn cynllunio i'w cadw a buddsoddi ynddynt yn yr hirdymor; a

ansawdd y ddarpariaeth llysoedd yn y filltir sgwâr. Cynnal astudiaeth dichonolrwydd fydd y cam nesaf i edrych ar botensial creu llys newydd ac i adnabod sut byddai'r Gorfforaeth yn ariannu'r adeilad.

- Mae angen i ni **wella ansawdd ein hadeiladau** ar gyfer ein defnyddwyr, y farnwriaeth a'n gweithwyr, sydd ar hyn o bryd yn ddiffygiol mewn gormod o safleoedd.

Egwyddor 1: Sicrhau mynediad at gyfiawnder

Mynediad at gyfiawnder yn GLITEM sydd wedi'i ddiwygio

4.5. Erbyn hyn nid yw nifer o bobl sydd eisiau cael mynediad at gyfiawnder yn mynychu llys neu dribiwnlys. Er enghraifft ym mlwyddyn ariannol 2016-17, codwyd dros 898,000 o ddyfarniadau trwy ddiffyg sifil (allan o gyfanswm o 1,055,000) heb ofyniad i fynychu'r llys. Yn debyg, o'r 114,000 o achosion ysgaru a ddechreuwyd, dim ond 4,000 o wrandawiadau a gynhaliwyd i benderfynu ar yr ysgariad neu'r setliad ariannol, ac fe ymdriniwyd â 28,000 o apeliadau nawdd cymdeithasol a chynnal plant 'ar bapur' (allan o 191,000 o apeliadau)⁹. Bydd y nifer o achosion fydd yn mynd drwy'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd heb yr angen i bartïon ymddangos yn cynyddu wrth i ni gyflwyno newidiadau megis gwasanaethau ar-lein a gwrandawiadau rhith.

4.6. Mae JUSTICE yn cydnabod y datblygiadau i symud tuag at gynnal gwrandawiadau rhith. Yn ei adroddiad *What is a Court?*, nododd JUSTICE y gallai rhoi blaenoriaeth i wrandawiadau mewn ystafell llys traddodiadol dros y mathau eraill o wrandawiadau y gellir nawr gynnig oherwydd technoleg newydd niweidio mynediad at gyfiawnder:

Ar hyn o bryd, mae'r system yn tybio bod angen dod â phawb at ei gilydd er mwyn gallu cynnal gwrandawriad, hyd yn oed pan nad yw hyn yn llesol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r achos. Gall technoleg a ffyrdd eraill o ddatrys anghydfodau, os defnyddir nhw'n gywir, gynnig cyfiawnder o ansawdd sydd ddim o fewn cyrraedd nifer fawr o gymdeithas ar hyn o bryd..¹⁰

4.7. Golyga hyn fod angen i ni edrych yn ehangach ar beth mae mynediad at gyfiawnder yn ei olygu i'r defnyddiwr modern. Gan fod llai o wrandawiadau'n cael eu cynnal mewn ystafell llys draddodiadol y dyddiau hyn, a gan nad oes angen bellach i'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweinyddol gael eu lleoli yn yr un lleoliad â gwrandawriad, sut ydym yn sicrhau fod gennym y lleoliadau cywir pan fydd angen cynnal gwrandawriad mewn ystafell llys?

Ystyried lleoliad llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder

4.8. Hyd yma mae llawer o'n rhesymoliad ynghylch yr ystad wedi canolbwyntio ar leoliad llysoedd a thribiwnlysoedd mewn trefi bychan, neu lle mae sawl safle wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd. Yn ein hymdrechion i gyfuno'r ystad ers 2010, rydym wedi gallu ail-leoli'r gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn llysoedd a thribiwnlysoedd sydd wedi'u cau mewn adeiladau eraill. Fodd bynnag, mae diwygio yn golygu y bydd gennym ffyrdd newydd o gyflawni ein busnes a bydd angen i ni gael prosesau newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'n hystad. Sicrhau mynediad effeithiol at gyfiawnder yw'r nod o hyd. Ar gyfer y rhai hynny sydd angen mynychu llys neu dribiwnlys, ein strategaeth ystadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol yw i GLITEM weithredu o'r lleoliadau gorau posibl i ddarparu gwasanaeth hygyrch. Byddwn yn ymdrechu i gynnal (ac mewn rhai achosion cynyddu) ein presenoldeb mewn rhai lleoliadau penodol. Y rhain yw'r prif drefi a dinasoedd yng Nghymru a Lloegr sydd â chysylltiadau trafniadaeth da, sy'n gwasanaethu nifer o bobl.

⁹ Mae'r rhifau wedi cael eu talgrynnu i'r 1,000 agosaf.

¹⁰ JUSTICE, *What is a Court?* (2016), tudalen 44

- 4.9. Bydd gwneud y defnydd gorau o'r prif lleoliadau hyn yn ein galluogi ni i fodloni anghenion cyfran fawr o'r boblogaeth. Credwn y bydd yna lefel uchel o gonsensws o ran lle mae'r lleoliadau allweddol hyn ym mhob rhanbarth - byddant yn cynnwys y prif ardaloedd metropolitan yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â'r trefi mwyaf neu drefi sirol sydd â'r cysylltiadau trafniadaeth gorau i ardaloedd eraill. O fewn y lleoliadau strategol hyn efallai y bydd cyfleoedd i gyfuno'r gwaith mewn llai o adeiladau - ond bydd angen cael presenoldeb yma bob amser.
- 4.10. Ar ochr arall y sbectrwm, bydd yna rai llefydd yn ein hystad bresennol lle byddai cau adeiladau yn achosi problemau annerbyniol o ran sicrhau mynediad at gyfiawnder. Gall y rhain fod yn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn llai ond bod yno alw o hyd am wrandawiadau mewn ystafelloedd llys a thribiwnlysoedd traddodiadol, sy'n rhy bell oddi wrth y lleoliadau strategol.
- 4.11. Mewn rhai lleoliadau, ac ar gyfer rhai mathau o wrandawiadau, efallai mai'r opsiwn cymesur fyddai i wrando ar achosion mewn adeiladau nad ydynt yn llysoedd neu'n dribiwnlysoedd (gweler isod am eglurhad am hyn), neu fod gwrandawiadau'n cael eu gwrandao'n rhywle arall, ond eu bod yn cychwyn yn hwyrach ac yn gorffen yn gynharach er mwyn helpu i sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mewn achosion eraill, efallai y byddai'n gwneud mwy o synnwyr yn economaidd i gadw gafael ar safle mewn lleoliad anghysbell ac ystyried sut fyddai'r ffordd orau i fwyhau ei werth a sicrhau effeithiolrwydd o ran y costau redeg, yn hytrach nag edrych ar ddarpariaethau atodol (gweler yr enghraifft isod ynghylch Gorllewin Cymbria).
- 4.12. Wrth wneud cynigion am resymoliad byddwn yn cymryd yr opsiynau hyn i ystyriaeth, byddwn yn ystyried y costau a manteision opsiynau eraill, ac yn mesur canlyniadau disgwylidig, gan dybio y gall y mwyafrif o ddefnyddwyr fynychu llys neu dribiwnlys ar amser a dychwelyd adref yr un diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen.

Amser teithio fel ffordd o asesu'r effaith ar fynediad at gyfiawnder

- 4.13. Mi wnaeth yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf 2015 amlygu fod yna bryderon nad oedd ein hegwyddorion ystad yn cyfeirio at yr amser teithio hiraf i lys neu dribiwnlys. Roedd egwyddorion yr ystad a ddefnyddiwyd i arwain y broses gwneud penderfyniadau yn ystod Rhaglen Diwygio Ystad y Llysoedd yn 2010 yn cynnwys egwyddor y byddai 'nifer helaeth o'r boblogaeth yn gallu teithio i'w llys agosaf o fewn awr ar gludiant cyhoeddus'.
- 4.14. Isod ceir asesiad o amseroedd teithio yn dilyn gweithredu'r newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016.

Teithio mewn car	Cyn y newidiadau		Ar ôl y newidiadau	
	0-60 munud	0-120 munud	0-60 munud	0-120 munud
Llysoedd y Goron	97%	100%	97%	100%
Llysoedd Ynadon	99%	100%	98%	100%
Llysoedd Sirol	99%	100%	98%	100%
Tribiwnlysoedd	83%	98%	83%	97%

Teithio ar gludiant cyhoeddus	Cyn y newidiadau		Ar ôl y newidiadau	
	0-60 munud	0-120 munud	0-60 munud	0-120 munud
Llysoedd y Goron	62%	94%	61%	93%
Llysoedd Ynadon	82%	97%	74%	95%
Llysoedd Sirol	78%	100%	72%	99%
Tribiwnlysoedd	39%	79%	39%	79%

(Ffynhonnell: Asesiad o'r Effaith a gyhoeddwyd gyda'r ymateb i'r ymgynghoriad cenedlaethol ym mis Chwefror 2016. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/499519/impact-assessment.pdf)

- 4.15. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos ein hamcangyfrifon o boblogaeth Cymru a Lloegr a fyddai, cyn ac ar ôl i'r cyhoeddiad ar gau llysoedd a thribiwnlysoedd gael ei wneud ym mis Chwefror 2016, wedi gallu teithio i lys neu dribiwnlys o fewn un a dwy awr. Mae hyn yn darparu amcangyfrif cyffredinol o'r effaith.
- 4.16. Nid GLITEM (a'r sefydliadau a oedd yn bodoli o'i flaen) yw'r unig rai i resymoli eu hystad ar yr un pryd â pharhau i sicrhau mynediad at gyfiawnder. Yn Yr Alban, mae Llysoedd yr Alban a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yr Alban wedi defnyddio arweiniad wrth ystyried newidiadau i'w hystad y dylai'r rhan fwyaf o'r boblogaeth allu teithio i lys a dychwelyd adref mewn diwrnod gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus¹¹. Mae eraill wedi defnyddio llinynnau mesur gwahanol. Er enghraifft, mae arweiniad yr Adran Addysg (DfE) yn nodi y dylai disgybl ysgol uwchradd allu teithio i ac o'r ysgol o fewn dwy awr a hanner.¹²
- 4.17. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad at, a darparu gwasanaethau yn her gyffredin. Er enghraifft, yn 2011 nid oedd gan 4 miliwn o dai yn y DU fynediad at gyflenwad nwy drwy'r prif gyflenwad.¹³ Y realiti yw bod rhaid cydbwysu mynediad at wasanaeth gyda'r lleoliad daearyddol. Bydd gan unigolion sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy poblog amseroedd teithio byrrach na'r rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy gwledig - gan gynnwys at bwrpasau y byddai llawer yn eu hystyried yn hanfodol. Er enghraifft, roedd amseroedd teithio i adrannau gofal iechyd critigol ar draws 189 o adrannau damweiniau ac argyfyngau yn Lloegr (yn 2014) ar gyfer y 18.3 miliwn o bobl a wnaeth eu defnyddio yn 2012/13 yn hirach i'r rhai hynny mewn ardaloedd gwledig o gymharu â'r rhai hynny mewn dinasoedd.¹⁴ Fodd bynnag, er gall amseroedd teithio i lys hefyd fod yn hirach i'r rhai hynny sy'n byw mewn

¹¹ *Shaping Scotland's court services: a public consultation on proposals for a court structure 2012.*

¹² *Home to school travel and transport guidance: Statutory guidance for local authorities*, Adran Addysg (Gorffennaf 2014), tudalen 14. Noder: mae paragraff 34 yn nodi na ddylai disgybl ysgol uwchradd deithio am fwy na 75 munud mewn taith sengl..

¹³ *Off-Grid Energy: An OFT market study*, Y Swyddfa Masnachu Teg (Hydref 2011), tudalen 14

¹⁴ *Accident and Emergency Attendances in England - 2012-13*, NHS Digital, accessed online: <https://digital.nhs.uk/catalogue/PUB13464> (October 2017)

ardaloedd gwledig, mae'n rhaid i ni barhau i sicrhau y gallant gael mynediad effeithiol at gyfiawnder.

- 4.18. Rydym yn parhau i gredu nad yw defnyddio amser teithio penodol fel ffordd o ddiffinio mynediad effeithiol at gyfiawnder yn briodol am nifer o resymau. Yn gyntaf, oherwydd fel yr ydym eisoes wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad hwn, mae gallu cael mynediad at ein gwasanaethau heb orfod mynychu llys neu dribiwnlys eisoes yn gyffredin a bydd yn datblygu i fod yn llawer mwy cyffredin yn y dyfodol. Hyd yn oed ar gyfer y rhai hynny sydd angen gallu mynd i lys neu dribiwnlys, prin iawn fydd yr adegau lle bydd angen iddynt wneud hyn. Yn ail, byddai unrhyw llyn mesur a ddefnyddir yn fypwyl ac ni fyddai'n seiliedig ar unrhyw ddadansoddiad penodol o anghenion defnyddwyr y llys a'r tribiwnlys.
- 4.19. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hyn yn peri pryder i nifer o'n rhanddeiliaid ac mae GLITEM wedi ymrwmo i sicrhau bod modd i bawb sydd angen cael mynediad at ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn gallu gwneud hynny. Rydym felly yn argymhell, pan fyddwn yn ystyried yr egwyddor mynediad at gyfiawnder mewn perthynas â gwrandawiaidau mewn ystafelloedd llys a thribiwnlysoedd traddodiadol, yn hytrach na nodi'r nifer o oriau, dylem, fel y gwneir yn y system Albanaid, osod nod y dylai bron iawn yr holl ddefnyddwyr allu mynychu llys neu dribiwnlys ar amser a dychwelyd o fewn diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen. Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi ar y pwnc hwn, ac yn benodol sut allwn ddeall yn well effeithiau posibl newidiadau i deithiau defnyddwyr i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

C1: Beth yw eich barn chi ar ein meincnod arfaethedig y dylai bod y mwyafrif yn gallu mynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd o fewn diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen?



Egwyddor 2: Darparu gwerth am arian

- 4.20. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwario arian cyhoeddus yn ofalus. Lle byddwn yn cyfuno'r ystad (naill ai drwy gau canolfannau neu eu cyfuno) byddwn yn mwyafrif swm a gawn o werthu adeiladau fel bod gennym gymaint â phosibl i'w ailfuddsoddi mewn moderneiddio ein gwasanaethau. Byddwn hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod yr ystad sy'n weddill yn fforddiadwy i'w chynnal a gellir ei chadw yn y cyflwr gorau posibl.
- 4.21. Nid yw gwerth am arian yr un fath a dewis yr opsiwn rhataf bob tro. Yn aml iawn gall gwerth am arian olygu buddsoddi mwy er mwyn cael canlyniad sy'n llawer gwell. Ein nod yw gwario beth sydd gennym mor dda â phosibl er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl, ac mae hyn yn golygu gwario arian ar y pethau all wneud y gwahaniaeth mwyafrif. Golyga hyn na fyddwn yn cadw adeiladau ar agor pan na fyddwn eu hangen; ond byddwn yn sicrhau fod gennym adeiladau sy'n addas i'r pwrpas yn y llysoedd lle'r ydym eu hangen, a byddwn yn gwario faint bynnag sydd ei angen er mwyn gwneud hynny.
- 4.22. Fel yr eglurwyd yn Rhan 2 o'r ddogfen hon, mae 90% o'n hadeiladau llys a'n tribiwnlysoedd o fewn 15 milltir i leoliad GLITEM arall.

Asesu capasiti a'r defnydd a wneir o ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

- 4.23. Mae gwerth am arian hefyd yn golygu sicrhau y gallwn ymdopi â'r llwythi gwaith presennol ac unrhyw amrywiadau yn y llwythi gwaith – er mwyn osgoi newidiadau cyfeiriad drudfawr. Mae ein dadansoddiad yn defnyddio data am lwythi gwaith presennol yr holl awdurdodaethau er mwyn i ni allu pennu lefel y capasiti sydd ei angen nawr, ond hefyd er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau i'r llwythi gwaith yn y dyfodol, ac asesu'r cynlluniau wrth gefn sydd eu hangen er mwyn gallu ymdopi â newidiadau annisgwyl i'r llwyth gwaith.
- 4.24. Gall y dadansoddiad o'r capasiti gymryd i ystyriaeth:
- llwyth gwaith presennol bob safle;
 - newidiadau a rhagwelir yn y gwaith yn ôl awdurdodaeth;
 - rhagdybiaethau ar effaith moderneiddio gwasanaethau ar lwyth gwaith y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gan gynnwys y gostyngiad disgwylledig yn y nifer o wrandawiadau a gynhelir, ac effaith y defnydd cynyddol o wasanaethau ar-lein a gwrandawiadau rhith;
 - gwneud gwell defnydd o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd o ganlyniad i waith parhaus i leihau'r amser y mae ystafelloedd gwrandawiadau yn wag, tra sicrhau bod amserlen y llys yn fwy rhagweladwy ac effeithiol i'r holl bartïon; a
 - 'ffin sensitifrwydd' i ddelio â newidiadau annisgwyl yn y dyfodol, gan sicrhau nad ydym yn cynllunio ar gyfer rhagolygon afrealistig.
- 4.25. Mae cymryd rhagdybiaethau ar y defnydd a wneir o wrandawiadau ar-lein neu rith yn ein galluogi i ragweld beth fyddai'r gofynion o ran capasiti mewn system sydd wedi symud gwaith i safleoedd eraill. Mae'r model hwn yn ein galluogi i ddiogelu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u halinio â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Ar yr un pryd mae angen i ni sicrhau bod digon o gapasiti yn cael ei gynnal bob amser a bod defnydd effeithiol o ystafelloedd llys a'r tribiwnlysoedd yn cael ei gydbwysu â'r angen i bartïon gael hyder y bydd eu gwrandawriad yn mynd yn ei flaen pan fyddwn yn dweud y bydd.
- 4.26. Mae'r defnydd a wneir o'n hadeiladau llys a'n tribiwnlysoedd yn rhoi syniad i ni o'u gwerth am arian - yn gyffredinol mae adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio yn cynrychioli dychweliad gwael ar yr arian sydd raid ei fuddsoddi er mwyn cynnal a chadw a rhedeg yr adeilad.
- 4.27. Mewn ymgynghoriadau blaenorol ar gau canolfannau, rydym yn bennaf wedi canolbwyntio ar lysoedd a thribiwnlysoedd nad oedd yn cael eu defnyddio llawer. Mewn sawl achos nid oedd yr adeiladau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac i'r eithaf. Mae'r adeiladau a oedd yn cael eu defnyddio lleiaf yn yr ystad wedi cael eu cau; ond yn gyffredinol 60% o'r defnydd posibl a wneir o'n hadeiladau, sy'n golygu fod yna fwy y gallwn wneud i sicrhau ein bod yn gwneud defnydd effeithiol o'n hadeiladau.

4.28. Mae'r rheswm dros y defnydd isel a wneir o'n hadeiladau yn gyfuniad cymhleth o ffactorau, gan gynnwys lleihad yn y llwyth gwaith mewn rhai ardaloedd, diffyg cydbwysedd rhwng maint adeilad a'r gwaith a wneir yn ardal y llys neu'r tribiwnlys a'r anhawster i bennu'r nifer cywir o wrandawiadau fyddai'n gallu cael eu gwrando ar y diwrnod. Rydym yn cydnabod bod ein gweithwyr a'r farnwriaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn gweithredu mor effeithiol â phosibl o fewn y cyfyngiadau hyn. Ond mae hyn yn sialens aruthrol mewn lleoliadau lle mae yna nifer fach o ystafelloedd gwrandawiadau sydd ddim yn gallu 'jygio' achosion i'r fath raddau ac y mae modd gwneud yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd mawr heb risg annerbyniol y byddai gwrandawiadau'n gorfod cael eu gohirio oherwydd diffyg lle. Fodd bynnag, mae asesiad o'r defnydd sydd wedi'i wneud o ystafelloedd llys a thribiwnlysoedd ers Ebrill 2011 yn dangos, er gwaethaf gostyngiadau sylweddol yn y nifer o ystafelloedd gwrando sydd ar gael yn dilyn y newidiadau a weithredwyd yn 2010, ac yna'r rhai hynny a gyhoeddwyd yn 2015, bod cyfraddau defnydd wedi aros yn eithaf sefydlog, er gwaetha'r ffaith bod y llwyth gwaith, ar wahân i waith y llysoedd troseddol, wedi cynyddu'n gyffredinol, a lle mae'r llwyth gwaith wedi cynyddu, mae'r 'dyddiau eistedd' sydd ar gael i ddelio â'r achosion hynny hefyd wedi cynyddu.



Ffynhonnell: Data OPT GLITEM

- 4.29. Bydd ein dadansoddiad o'r defnydd a wneir o'n llysoedd a'n tribiwnlysoedd, y ffactorau sy'n pennu hyn a'n gwaith ar fodelu capasiti fel y disgrifiwyd uchod, yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau cadarn o ran sut allwn gyfuno ein hystad ymhellach.

Optimeiddio capasiti ystafelloedd gwrاندawia dau

- 4.30. Rydym wedi bod yn ceisio gwella'r defnydd a wneir o'n hadeiladau llys a'n tribiwnlysoedd drwy ddwy fenter. Mi wnaethom greu'r prosiect Optimeiddio Capasiti Ystafelloedd Gwrاندawia dau (OHC) yn 2016, gan sefydlu tîm bychan i weithio gyda 14 safle unigol i adnabod a rhannu arferion da er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n ystafelloedd gwrاندawia dau drwy weithredu gwell arferion rhestru a ffyrdd newydd o weithio. Mi wnaeth y prosiect weithredu dan yr egwyddor mai barnwyr annibynnol sy'n parhau i wneud penderfyniadau ynghylch rhestru achosion.

- 4.31. Mi wnaeth prosiect OHC ganolbwyntio ar geisio sicrhau gwell ffyrdd o reoli cyfleusterau, gyda rheolwr penodol yn arwain y gwaith o weithredu a gwerthuso'r syniadau a'r newyddbethau yn safleoedd OHC. Mae enghreifftiau o'r hyn a wireddwyd yn cynnwys:

- Crëwyd capasiti ychwanegol mewn un canolfan cyfiawnder materion sifil a theulu drwy ddefnyddio ystafell rheithgor a oedd yn cael ei thanddefnyddio ar gyfer gwrando achosion SSCS. Creodd hyn 180 o ddyddiau eistedd ychwanegol yn 2017/18 ar gyfer gwrando tua 1440 o achosion;
- Drwy gyfuno rhestri hanner diwrnod i un ystafell wrاندawia dau gyda dau farnwr yn rhannu'r ystafell a'r siamrau, mi wnaeth un canolfan dribiwnlys lwyddo i ryddhau'r hyn a oedd yn cyfateb i wyth diwrnod yr wythnos ar gyfer defnydd arall;
- Cafodd offer recordio ei osod mewn ystafell wrاندawia dau mewn llys ynadon er mwyn ei gwneud yn ystafell aml awdurdodaeth ar gyfer gwrando achosion SSCS ac achosion llys teulu;
- Mi wnaeth un canolfan llys y Goron fawr gynnal menter lle rhestrwyd ceisiadau mechnïaeth am 9:30am, ac yna roedd modd i dreialon a wrاندawyd arnynt yn rhannol ddechrau am 10am. Cafodd hyn effaith bositif ar y dioddefwyr, y tystion, y rheithwyr a holl ddefnyddwyr y llys. Mi wnaeth Gwasanaeth Eryl y Goron gefnogi'r fenter ac arbed costau drwy frifio mwy o gyfreithwyr mewnol i gynnal gwrandawia dau mechnïaeth;
- Crëwyd ystafell wrاندawia dau ar gyfer gwrandawia dau lle nad oes rhaid i'r diffynnydd/diffynyddion neu reithwyr fynychu mewn llys y Goron er mwyn cyfuno oddeutu tri diwrnod y mis o wrاندawia dau rheoli achosion. Mi wnaeth y fenter hon ryddhau capasiti mewn ystafelloedd wrاندawia dau traddodiadol yn llys y Goron ar gyfer gwaith arall llys y Goron neu waith tribiwnlys y Siambr Mewnfudo a Lloches.
- Drwy ddefnyddio data o dueddiadau rhestru a gwrando achosion yn y gorffennol, cafodd rhestru a gwrando achosion hawliadau bychan a hawliadau sifil trac cyflym eu canoli o nifer o lysoedd sirol ar draws Llundain i 10 ystafell wrاندawia dau mewn un safle. O ganlyniad, cafodd nifer fwy o achosion eu rhestru a'u gwrando bob dydd, roedd ystafelloedd gwrandawia dau yn cael eu defnyddio'n well gan leihau amseroedd aros a gohiriadau a chynyddwyd datrysiadau achosion Trac Cyflym 40% ac achosion Hawliadau Bychan 23%. Yn ystod y cynllun peilot, parhaodd y data i gael ei gasglu ar y rhestrau hyn gan roi

gwybodaeth gyfoes i'r llys er mwyn eu galluogi i addasu eu dulliau gweithio er mwyn ymateb i dueddiadau a oedd yn dod i'r amlwg. Roedd y llysoedd hynny lle cafodd y gwaith ei symud ohonynt hefyd yn gallu defnyddio'r amser hwnnw i leihau amseroedd aros gwaith arall.

- 4.32. Drwy'r gwaith profi rydym wedi'i wneud, rydym wedi adnabod ffyrdd i wella'r defnydd a wneir o'n hystad. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn gyda'r farnwriaeth i adolygu a gwella arferion rhestru lle bo modd. Bydd y rhain yn eu tro yn ein helpu ni i wneud gwell penderfyniadau gwybodus ynghylch capasiti yn ein hadeiladau pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol ein ystad. Ni fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud o ran cynyddu capasiti yn y safleoedd fydd yn ymgymryd â gwaith yr adeiladau fydd yn cael eu cau nes byddwn yn fodlon bod yr holl wersi a ddysgwyd yn sgil OHC wedi'u rhoi ar waith.
- 4.33. Drwy werthuso prosiect OHC rydym wedi gweld bod adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n fwy o ran maint yn fwy hyblyg ac maent yn caniatáu i achosion gael eu rhestru yn y modd mwyaf effeithiol, naill ai drwy restru achosion o fathau tebyg 'cefn wrth gefn' ar restru lluosog ar yr un diwrnod, neu drwy hwyluso defnydd aml-awdurdodaethol o ystafelloedd. Gallant ddarparu gwell ymateb i amrywiadau yn y llwyth gwaith gan ganiatáu i ystafelloedd gael eu defnyddio ar gyfer achosion o fath gwahanol yn ôl yr angen. Ein bwriad yw canolbwyntio ar sicrhau bod ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn hyblyg yn y dyfodol a bydd dyluniad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn datblygu hyn ymhellach. Cafodd hyn ei gydnabod gan yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a gyhoeddwyd yn 2011 ac a nododd y gallai creu gwell arbenigedd fod yn fanteisiol. Argymhellwyd bod:
- Dylai GLITEM adolygu ystad y llysoedd teulu i leihau nifer yr adeiladau lle y gwrandawir achosion, er mwyn gwella effeithlonrwydd, dilyniant barnwrol ac arbenigedd.¹⁵
- 4.34. Fel y dywedwyd ar dudalen 11, rydym yn cynllunio i symud llawer o'n swyddogaethau gweinyddol presennol allan o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Bydd ein gweithwyr yn y canolfannau gwrandawriadau yn gallu neilltuo eu hamser i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i unigolion sy'n ymweld â'n hadeiladau.
- 4.35. Yn olaf, rydym yn ceisio gwella'r ffordd yr ydym yn casglu data am ein gwrandawriadau a'i ddefnyddio i wella sut maent yn cael eu rhestru. Unwaith y bydd hyn mewn lle, bydd gwell data yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu ffyrdd gwell a mwy dibynadwy o ragweld pethau, gan wella effeithlonrwydd ein prosesau rhestru.
- 4.36. Mae gwerth am arian hefyd yn golygu sicrhau bod ein hadeiladau mewn cyflwr da neu fod posib sicrhau eu bod mewn cyflwr da. Fel y nodwyd eisoes, mae'r arferiad o drwsio ac ailwampio yn golygu ein bod angen gwell gwybodaeth wrth i ni benderfynu pa adeiladau sydd angen i ni eu cadw a'u cynnal yn fwy effeithiol. Rydym wedi comisiynu arolygon cyflwr ar ein holl adeiladau fydd yn ein galluogi i ddeall yn llwyr yr her sydd o'm blaen o ran y gwaith cynnal a chadw sydd angen ei wneud a blaenoriaethu'r arian sydd ar gael ar y gwaith sydd angen ei flaenoriaethu. Mae arolygon sy'n berthnasol i'r argymhellion penodol a wneir yn y papur hwn eisoes wedi'u derbyn a'u hystyried. Bydd y broses hon yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau posibl ar leoli ein hadeiladau yn y dyfodol.

¹⁵ *Family Justice Review: Final Report* (2011), tudalen 11, paragraff 40.

Egwyddor 3: Sicrhau effeithiolrwydd yn yr hirdymor


4.37. Wrth i ni ymdrechu i sicrhau bod ein hystiad yn effeithiol yn yr hirdymor, mae angen i ni ystyried ffurfwedd ein hadeiladau a sut allwn ei gwneud yn fwy hyblyg ac addas ar gyfer gwasanaeth sy'n newid er mwyn gallu cynnig mwy o ddarpariaethau digidol. Efallai na fydd ystad sy'n darparu gwerth am arian nawr yn darparu hyn yn yr hirdymor, wrth i dechnoleg ddatblygu, llwythi gwaith newid a chyfleoedd a heriau newydd ddod i'r amlwg. Er na allwn ragweld yn union beth sydd o'n blaen, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn ail-adrodd y camgymeriadau a gafodd eu gwneud yn y gorffennol o ran dylunio adeiladau sy'n aneffeithiol ac sy'n ddrudfawr i'w haddasu. Mae'n rhaid i ni hefyd osgoi gwneud penderfyniadau tymor byr ar gynnal a chadw'r ystad fydd yn profi i fod yn fwy costus yn yr hirdymor. Byddwn yn nodi yn yr adran nesaf sut ydym yn bwriadu gwneud hyn.

Bodloni ein hamcanion yng ngoleuni'r egwyddorion

4.38. Fel mae'r papur hwn yn nodi'n glir, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau hirdymor ar leoliadau llysoedd a thribiwnlysoedd yn y dyfodol mae'n rhaid ystyried cyfres o ffactorau a mabwysiadu dulliau gweithio newydd a gwell. Yn yr adran hon byddwn yn trafod ein gwaith datblygu, yn egluro ein dull gweithredu ac yn manylu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma.

Y lleoliadau cywir

- 4.39. Er mwyn gallu penderfynu lle i leoli ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, mae'n rhaid i ni benderfynu lle fydd ein lleoliadau strategol a phatrwm lleoliadau eraill a darpariaethau atodol er mwyn sicrhau mynediad digonol at ein gwasanaethau.
- 4.40. Dan egwyddorion cyfredol yr ystad, rydym yn chwilio am gyfleoedd i gyfuno llysoedd mewn prif leoliadau er mwyn gwella effeithiolrwydd a mwyhau mynediad at gyfiawnder drwy ddefnyddio cyfleusterau mwy modern. Yn ein strategaeth ar gyfer y dyfodol efallai y bydd rhagor o gyfleoedd i gyfuno safleoedd yn ein lleoliadau strategol.
- 4.41. Mae Newcastle yn enghraifft o le mae'r llysoedd yn cael eu cyfuno dan egwyddorion cyfredol yr ystad. Mae dyddiadau dod i ben prydles, cyflwr gwael adeiladau a chyfleoedd o ran ein hystiad wedi'n galluogi ni i ddatblygu cynllun i gyfuno ein gwasanaethau gwrandawiaid i ddau leoliad strategol.



Lleoliadau eraill a darpariaethau llysoedd a thribiwnlysoedd atodol

- 4.42. Ochr yn ochr â'n lleoliadau strategol mae angen i ni wneud trefniadau ar gyfer lleoliadau eraill, fel arfer mewn ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth yn llai, er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad at gyfiawnder lle gall cysylltiadau trafnidiaeth fod yn ddiffygiol. Gall hyn gynnwys cadw gafael ar ein llysoedd a'n thribiwnlysoedd cyfredol er nad ydynt efallai yn cael eu defnyddio llawer a/neu fod ynddynt llai o gyfleusterau o gymharu â'n canolfannau gwrandawr sy'n fwy o ran maint. Dyma yw'r ffactorau yr ydym wedi'u hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch darpariaethau'r llysoedd a'r thribiwnlysoedd dan egwyddorion cyfredol yr ystad yn dilyn ymgynghoriad 2015. Gweler isod enghraifft o hyn gogyfer â Gorllewin Cymbria.
- 4.43. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried darpariaeth llys a thribiwnlys atodol er mwyn bodloni anghenion defnyddwyr fydd, oherwydd diffyg mynediad at gludiant, diffyg symudedd, caledi ariannol neu faterion diogelwch yn cael anhawster i deithio i lys neu dribiwnlys i gymryd rhan mewn gwrandawriad. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y bydd yna ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau fydd yn golygu na fydd rhaid i unigolion fynychu canolfan wrandawriadau ac y gall rhai defnyddwyr llys a thribiwnlys hawlio costau teithio.

Example 2 – West Cumbria – Access to Justice

Proposal

- West Cumbria Magistrates Court (in Workington) was proposed for closure in the estates consultation published in July 2015. Following careful consideration of the responses to the consultation we decided to retain the court because of concern about local transport links and access to justice. A local listing consultation in Cumbria confirmed the need for a presence in West Cumbria.
- Workington, Carlisle and Barrow-in-Furness are all key locations in Cumbria for providing access to justice, given the rural nature and population distribution of the county

Key Factors

- Operating costs for West Cumbria Magistrates Court are around £200,000 per annum, and it has been assessed that because of relatively low operating costs, it is more cost effective to maintain the existing courthouse here rather than put in place supplementary provision.
- West Cumbria Magistrates court is not fully utilised but the concerns around access to justice outweigh any utilisation concerns.
- Were this site to close, court users would be required to travel to Carlisle and/or Barrow-in-Furness, both of which are a substantial distance away as demonstrated in the below table.

Maximising the use of the court

The court is open every day and is used as a multi-jurisdictional hearing centre for magistrates, civil, family and tribunals to maximise usage.

The administrative staff who are based in the court support the wider administration for Cumbria for example processing TV license work

Places	Travel Times	
	Approx. time by car	Approx. time by public transport
Workington to Barrow-in-Furness	1 hour 45 minutes	1 hour 45 minutes
Workington to Carlisle	55 minutes	1 hour 30 minutes

2

- 4.44. Hefyd, fel yr ydym eisoes wedi nodi, nid oes rhaid i'n gwasanaethau gael eu cynnal bob tro mewn adeiladau llys a thribiwnlys traddodiadol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi sefydlu nifer o ddarpariaethau atodol mewn adeiladau eraill. Mae'r rhain wedi amrywio o drefnu mwy o gysylltiadau fideo lleol i ddiodefwyr a thystion i gynnal gwrandawiadau yn adeiladau'r awdurdod lleol.
- 4.45. Rydym yn rhagweld y bydd gan ddarpariaeth atodol ran gynyddol i'w chwarae yn y dasg o geisio sicrhau bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn hygyrch. Pan fyddwn yn cau adeilad, a phan fydd yn amlwg y dylid parhau i gynnal gwrandawiadau corfforol rheolaidd yn yr ardal – hyn yn oed petaent yn afreolaidd, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i ddefnyddio adeiladau sydd ddim yn eiddo i GLITEM i'w darparu; a phan benderfynir na ddylai'r diodefwyr a'r tystion orfod teithio i'r rhain er mwyn gallu ymddangos, byddwn yn sicrhau fod yna ffyrdd lleol, diogel a chyfforddus ar gael iddynt allu ymddangos drwy gyswllt fideo.
- 4.46. Rydym eisoes wedi sefydlu y gall darpariaethau atodol fod yn ffordd effeithiol o ddarparu mynediad at gyfiawnder ar gyfer defnyddwyr y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant yn Yr Alban lle'r ydym yn llogi ystafelloedd mewn 14 o leoliadau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, ond nid ar sail llawn amser, i gynnal gwrandawiadau. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, neuaddau eglwys, canolfannau cynhadledd a gwestai.
- 4.47. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi sefydlu'r math hwn o ddarpariaeth atodol ar gyfer mathau eraill o wrandawiadau gan gynnwys rhai gwrandawiadau sifil a gwaith y llys ynadon. Dyma ddwy astudiaeth achos.

Astudiaeth Achos – Tunbridge Wells

Mae Neuadd y Dref Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells wedi bod yn cael ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau sifil bob dydd Mawrth ers Rhagfyr 2016. Fe ddefnyddir siambr y Cyngor, sy'n ystafell ffurfiol fawr a nodedig gyda dodrefn trwm, i wrando achosion sifil megis achosion meddiannu ac achosion eraill sydd wedi cael eu pennu'n addas gan y farnwriaeth i'w gwrandao yn y lleoliad hwn, gan gynnwys ceisiadau sifil syml. Roedd rhaid gwneud ychydig o addasiadau i'r lleoliad er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion diogelwch i eiddo a phobl GLITEM ac mae swyddogion diogelwch GLITEM yn gyfrifol am ddiogelwch yr holl eiddo a'r defnyddwyr pan ddefnyddir yr adeilad ar gyfer gwrandawiadau.

Ers i'r cyfleuster hwn fod yn weithredol mae cyfarfodydd defnyddwyr y llys wedi bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn cadw golwg ar y ddarpariaeth ac mae GLITEM yn paratoi adroddiad misol ar y defnydd a wneir o'r adeilad a'i effeithiolrwydd, sy'n gadarnhaol iawn hyd yma.

Astudiaeth Achos – Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Yr Alban, Kirkcaldy

Mae GLITEM yn llogi Volunteer House yng Nghirkcaldy, Fife, yn rheolaidd ac mae'n cael ei isosod gan y Sector Gwirfoddol. Mae GLITEM yn llogi ystafell benodol ac ystafell aros ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys. Mae modd defnyddio'r lleoliad hwn am hyd at bum diwrnod yr wythnos, yn amodol ar y galw, ac nid yw'n cael ei logi i ddefnyddwyr eraill ar yr un pryd.

Mae'r lleoliad hwn yn gwrandao achosion Apeliadau Nawdd Cymdeithasol ond ni ddefnyddir ef ar gyfer Apeliadau Cynnal Plant neu Apeliadau Meddygol. Gwrandewir yr achosion hyn yng Nghaeredin gan bod angen ystafell asesu feddygol ar gyfer Apeliadau Meddygol ac ystafell aros ychwanegol ar gyfer achosion Cynnal Plant.

Cynhaliwyd 161 o sesiynau yn y lleoliad hwn rhwng 1 Ebrill 2017 ac 31 Awst 2017 sy'n profi ei bod yn ganolfan brysur ac o werth. Mae Swyddogion Diogelwch GLITEM yn gyfrifol am sicrhau diogelwch eiddo a phobl yn y lleoliad hwn pan ddefnyddir ef ar gyfer gwrandawiadau.

4.48. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal rhagor o ymarferion profi i weld i ba raddau gallwn ddefnyddio amrywiaeth o leoliadau tu allan i ystad GLITEM ar gyfer gwahanol fathau o wrandawiadau. Bydd y profion hyn yn hysbysu'r defnydd a wneir o fathau eraill o leoliadau yn y dyfodol.

4.49. Rydym yn profi'r lleoliadau canlynol:

- Canolfan Gymunedol Trefyclo, Powys. Mae'r lleoliad hwn eisoes wedi cael ei ddefnyddio i wrando Apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant ac mae'n cael ei ystyried ar gyfer cynnal achosion sifil a theulu addas, yn amodol ar y galw yn yr ardal leol.

- Neuadd y Dref Abergele. Mae'r lleoliad hwn eisoes wedi'i ddefnyddio ar gyfer achosion sifil a theulu addas a bydd yn profi gwrandawiadau Apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant a gwrandawiadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth.
- Mae Llys y Crwner ym Mhlymouth eisoes wedi'i ddefnyddio ar gyfer rhai gwrandawiadau'r llys ynadon (digarchar) a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwrandawiadau sifil.

4.50. Rydym hefyd yn monitro ac yn gwerthuso'r lleoliadau canlynol sydd eisoes wedi'u sefydlu:

- Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells (gweler yr astudiaeth achos uchod)
- Neuadd y Dref Kendal a ddefnyddir un diwrnod y mis i wrando achosion sifil addas ac un diwrnod y mis i wrando gwrandawiadau llys ynadon addas.
- Neuadd y Dref Llangefni a ddefnyddir un diwrnod pob pythefnos i wrando achosion sifil a theulu addas ac un diwrnod pob pythefnos i wrando gwaith llys ynadon addas.

4.51. Pan fyddwn yn defnyddio a gwerthuso lleoliad fel rhan o'n strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol byddwn yn asesu:

- p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio ag egwyddorion Llys y Dyfodol (gweler isod) o ran ei fod yn darparu amgylchedd addas, effeithiol, hyblyg, cynaliadwy a hygyrch ar gyfer y math o wrandawiadau a gynhelir yno;
- p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'n safonau diogelwch i eiddo a phobl ac yn darparu amgylchedd diogel a saff i ddefnyddwyr y llys a'r tribiwnlys, y farnwriaeth, defnyddwyr proffesiynol a'r staff;
- p'un a yw'r lleoliad yn gost effeithiol pan y'i hasesir yn erbyn costau gweithredol cynnal adeilad GLITEM. Gall hefyd fod yn gyfle i gynyddu'r defnydd a wneir o adeiladau cyhoeddus neu gymunedol yn yr ardal leol;
- p'un a yw'r lleoliad yn addas ar gyfer y math o TG fydd angen ei defnyddio yno oherwydd y math o wrandawiadau a gynhelir yno.

4.52. Rydym yn rhagweld y bydd gan ddarpariaethau atodol ran i'w chwarae yn y dasg o geisio sicrhau bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn hygyrch. Y farnwriaeth fydd yn penderfynu a ddylid rhestru achosion mewn adeilad darpariaeth atodol.

4.53. Os byddwn yn ystyried bod angen trefnu darpariaeth atodiad er mwyn ein galluogi ni gau adeilad llys neu dribiwnlys, byddwn yn cynnwys manylion o ran sut ydym yn bwriadu gwneud hyn yn yr ymgynghoriad. Bydd angen i ni ystyried yn ofalus a oes angen lleoliad ar gyfer cynnal gwrandawiadau traddodiadol neu ai'r ffordd orau i fodloni anghenion defnyddwyr fyddai trefnu mwy o leoliadau i ddiodefwyr a thystion allu roi tystiolaeth o bell.

4.54. Yn olaf, byddwn hefyd yn ystyried defnyddio'r math hwn o ddarpariaeth ategol, yn ogystal ag opsiynau eraill megis oriau agore hyblyg, fel ffordd o reoli amrywiadau yn y llwyth gwaith yn y dyfodol e.e. cynnydd yn y galw am wrandawiadau mewn rhai awdurdodaethau neu leoliadau.

C2. Beth yw eich barn chi ar ddarparu gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd tu allan i adeiladau llysoedd a'r tribiwnlysoedd traddodiadol? A oes gennych chi

farn ar y dulliau yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu ac a oes yna gamau eraill y gallwn eu cymryd i wella hygyrchedd ein gwasanaethau?

Dadansoddiad o amseroedd teithio – datblygu ein dealltwriaeth

- 4.55. Rhaid i benderfyniadau ar leoliadau llysoedd a thribiwnlysoedd, o ddarpariaeth strategol i ddarpariaeth ategol, gymryd hygyrchedd i ystyriaeth. Mewn ymgynghoriadau blaenorol ar gau llysoedd a thribiwnlysoedd rydym wedi darparu dadansoddiad ar effaith y cynigion ar amseroedd teithio'r rhai hynny sy'n mynychu'r llys neu'r tribiwnlys. Rydym wedi defnyddio enghreifftiau go iawn o amseroedd a chostau o'r lleoliad sydd i'w gau i'r llys neu'r tribiwnlys ategol ac, yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd fis Gorffennaf 2015, dadansoddiad ystadegol o'r effeithiau ar draws ardal y llys neu'r tribiwnlys o ran cludiant cyhoeddus a theithio mewn car. Fodd bynnag, cafodd ein dadansoddiad ei herio yn yr ymatebion i'r ymgynghoriadau.
- 4.56. Fel rydym wedi nodi'n barod, nid ydym yn ystyried bod amser (a chostau) teithio yn rhoi'r darlun cyflawn pan fyddwn yn asesu mynediad at gyfiawnder. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai hynny sydd angen teithio i adeilad llys neu dribiwnlys mae'n parhau i fod yn ffactor pwysig. Byddwn felly yn parhau i ddarparu dadansoddiad manwl o amseroedd teithio. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr ystad cenedlaethol yn 2015/16 yn feirniadol o'n dadansoddiad o amseroedd teithio ac awgrymwyd ein bod wedi selio ein dadansoddiad ar ddata a oedd wedi dyddio ac a oedd yn anghywir. Er mwyn gwella'r agwedd hon o'n dadansoddiad rydym wedi datblygu model gwell sy'n diweddarau'r data yr ydym yn ei ddefnyddio. Byddwn hefyd yn symud oddi wrth dim ond edrych ar yr amseroedd teithio o'r llys sy'n cael ei gau i'r llys fydd yn ymgymryd â'r gwaith, ac yn canolbwyntio yn lle hynny ar yr amseroedd teithio i'r llys fydd yn ymgymryd â'r gwaith ar gyfer y rhai hynny yn ardal y llys fydd yn cau.
- 4.57. Bydd y model yn asesu amseroedd teithio aelodau'r cyhoedd o fewn ardal adeilad llys neu dribiwnlys. Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch yr Adran Ystadegau Cenedlaethol ac mae'n caniatáu cymhariaeth effeithiol o amseroedd teithio o'r lleoliad i'r llys neu'r tribiwnlys presennol neu'r lleoliad arfaethedig.
- 4.58. Yn ogystal â modelu amseroedd teithio bydd asesiadau effaith yn parhau i ddarparu enghreifftiau go iawn o amseroedd a chostau teithio cyffredin. Byddwn wastad yn sicrhau ein bod wedi gwirio canlyniadau ein hasesiadau modelu gyda'r bobl sydd â gwybodaeth leol am yr ardal. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth sy'n fwy cywir a dibynadwy i'r rhai hynny sy'n adolygu ein cynigion a bydd yn sicrhau bod ein hystyriaethau ni o effeithiau amseroedd teithio mor gywir â phosibl. Bydd hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o effaith y cynigion ar fynediad at gyfiawnder, er enghraifft mewn lleoliadau anghysbell, gan gymryd i ystyriaeth amseroedd gyrru ac amseroedd teithio ar gludiant cyhoeddus. Rydym yn bwriadu cyflwyno hyn ar ffurf tablau a mapiau thematig.

C3. Beth yw eich barn chi ar sut fydd ein dadansoddiad o'r amseroedd teithio yn cael effaith ar ein cynigion? A oes yna unrhyw ddulliau eraill dylem eu hystyried?

Asesu capasiti a defnydd

- 4.59. Ochr yn ochr â lleoliad a hygyrchedd mynediad mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym y capasiti cywir. Pan fyddwn yn asesu ein capasiti, bwriadwn wneud hynny yn erbyn y meini prawf canlynol: Byddwn yn:

- defnyddio'r hyn a ddysgwyd o brosiect OHC i sicrhau ein bod wedi llwyr ddeall beth sydd ei angen mewn ystafelloedd gwrandawiadau;
- sicrhau fod yna ddigon o gapasiti i wrando'r llwyth gwaith disgwylidig a darparu gofod addas ar gyfer y staff, y farnwriaeth a defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd;
- alinio newidiadau i'r ystad gyda gofynion capasiti llai sy'n digwydd o ganlyniad i foderneiddio'r ystad; a
- sicrhau fod yna ddigon o hyblygrwydd i gynnal capasiti petai'r llwyth gwaith yn amrywio.

4.60. Byddwn ond yn argymhell bod llys neu dribiwnlys yn cau pan fyddwn yn fodlon y gellir bodloni'r meini prawf hyn.

C4. A ydych chi'n cytuno mai'r meini prawf hyn yw'r rhai cywir i'w defnyddio wrth asesu capasiti? A oes yna unrhyw rai eraill dylem eu hystyried?

Asesu a chynnal ein ystad

- 4.61. Y ffactor olaf wrth benderfynu ar ein lleoliadau yw ansawdd yr adeiladau yr ydym yn gobeithio cael gwared ohonynt neu eu cadw. Er bod y gwaith i gyfuno adeiladau ers 2010 wedi lleihau ein costau, mae yna dal ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw sydd wedi'i ohirio dros nifer o flynyddoedd.
- 4.62. Er gwaethaf ein hymdrechion, nid yw adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd bob amser yn darparu'r amgylchedd o ansawdd yr ydym yn ei ystyried yn briodol ar gyfer y cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol. Rydym yn benderfynol o greu ystad sydd o ansawdd uchel ac sy'n addas i'r pwrpas.
- 4.63. Yma, byddwn yn defnyddio arolygon adeiladau i gefnogi'r broses o wneud gwell penderfyniadau a chreu rhaglen ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol cynlluniedig, gyda'r nod o atal ein ystad rhag mynd â'i phen iddi. Byddwn, lle bydd modd, yn symud o'r adeiladau hynny sydd yn y cyflwr gwaethaf, ar yr amod y gellir dod o hyd i well adeilad. Mae'n anochel y bydd angen sicrhau cydbwysedd yma. Mae'r gost o sicrhau darpariaeth llys a thribiwnlys yn sylweddol ac mewn sawl achos bydd, gyda chyllidebau cyfyngedig, yn well atgyweirio adeilad sydd mewn cyflwr gwael yn hytrach na cheisio dod o hyd i adeilad arall.
- 4.64. Fodd bynnag, dim ond y cam cyntaf yw gwneud y penderfyniad cywir. Mae angen i ni wella'r ffordd yr ydym yn rheoli'r gwaith cynnal a chadw, a hynny oherwydd ein profiadau ac er mwyn cefnogi'r defnydd ychwanegol fydd yn cael ei wneud o'n hystad yn y dyfodol.
- 4.65. Rydym eisoes yn gwneud cynnydd gyda hyn. Rydym yn ymdrechu i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud gwaith cynnal a chadw dyddiol yn ein hadeiladau drwy ein contractau rheoli cyfleusterau gyda'n pencampwyr adeiladau, sy'n bwyntiau cyswllt unigol ar gyfer contractwyr rheoli cyfleusterau ac sy'n hwyluso datrysiadau cyflym o'r materion cynnal a chadw mwyaf syml sy'n dod i'r fai. Rydym yn cynllunio i benodi cyfanswm o 320 o bencampwyr adeiladau.
- 4.66. Mae rhai mathau o waith cynnal a chadw arferol yn cymryd rhy hir i'w gwblhau. Nid yw hyn yn dderbyniol, ac rydym yn newid ein prosesau fel y gall pencampwyr

adeiladau drefnu i fân waith gael ei wneud yn uniongyrchol heb orfod defnyddio'r broses 'achos busnes' hirfaith, gan olygu y bydd y gwaith yn cael ei wneud dros 40 diwrnod yn gynt mewn rhai achosion. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys pethau fel cael gwared â graffiti, gwaith paentio, gosod carped a thrwsio cloeon. Mae'r gostyngiad hwn yn yr amser a gymerir i ddechrau gwaith cymeradwy wedi'i gyflawni drwy symleiddio prosesau a gwella'r broses o sgopio gwaith drwy fuddsoddi mewn gwell hyfforddiant.

- 4.67. Pan fydd ein contractau rheoli cyfleusterau sy'n cael eu prynu i mewn yn dod i ben byddwn yn llunio contractau newydd i sicrhau fod gennym fynediad at arbenigwyr mewn meysydd allweddol, gan gynnwys gwasanaethau adeiladu, ynni a chynaliadwyedd. Bydd angen i'r contractau newydd hyn allu cefnogi'r defnydd uchel a wneir o'r ystad a galluogi'r adeiladau i berfformio ar lefelau gwydnwch sy'n ddigonol i fodloni'r gofyn hwn, gan gynnwys cael ymateb o fewn amser rhesymol.
- 4.68. Wrth i'n hystad newid yn unol â'n rhaglen ddiwygio, bydd angen i'r contractau hyn allu ymateb i'r gwasanaethau presennol sy'n cael eu darparu yn ogystal ag addasu i ymdopi â gofynion newydd. Bydd angen i'r contractau hyn gydnabod amrywiad ac amrywiaeth ein ystad, gan fod rhai o'r adeiladau yn adeiladau rhestredig ac yn adeiladau o bwys cenedlaethol.
- 4.69. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio gyda'n contractwyr presennol i wella eu perfformiad a'u hymatebolrwydd dan y contractau cyfredol, a sicrhau bod pawb yn hollol ymwybodol o ddisgwyliadau ei gilydd.
- 4.70. Rydym yn cydnabod y gall bawb elwa o well cyfleusterau yn ein hadeiladau, a byddwn yn gweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth i ystyried sut y gallwn wella'r isadeiledd digidol ynddynt. Byddwn hefyd yn edrych ar sut allwn gyfrannu tuag at y gwaith o gyflwyno 5G wrth i ni wella a chyfuno ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ymhellach.

Cynladwyedd a'n hystad treftadaeth

- 4.71. Mae GLITEM yn cymryd ei gyfrifoldebau cynladwyedd amgylcheddol a'r adeiladau hanesyddol sy'n rhan o'r hystad o ddifrif. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod adeiladau sydd o bwys hanesyddol yn cael eu gwarchod a'u cynnal a chadw'n briodol.
- 4.72. Bydd moderneiddio ein gwasanaethau yn golygu mai dim ond y rhai hynny sydd raid iddynt fynychu llys fydd angen gwneud hynny yn y dyfodol, gan leihau'r effaith amgylcheddol ar y system gyfredol a'r ddibyniaeth drwm fod pobl yn gorfod teithio i'r llys a chynhyrchu bwndeli mawr o bapurau achos. Bydd gwella ein hadeiladau, a chadw adeiladau sy'n arbed ynni yn arwain at lai o allyriadau carbon.
- 4.73. Mae gennym adeiladau rhestredig a hanesyddol yn ein hystad bresennol. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol a rhaid edrych ar eu hôl. Mae GLITEM wedi creu swyddogaeth eiddo sy'n gyfrifol am reoli'r adeiladau hyn. Rydym yn archwilio ein hadeiladau er mwyn deall beth yw eu gofynion cynnal a chadw, ac i sicrhau bod ein hadeiladau rhestredig yn cael y gofal dyledus yn unol â'r canllawiau priodol ar adeiladau hanesyddol er mwyn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 4.74. Mae nifer o'n hadeiladau hanesyddol wedi cael eu cau, eu gwerthu neu daeth eu prydlesi i ben yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol i gau llysoedd a

thribiwnlysoedd, ac mae'n debyg y bydd mwy ohonynt yn cael eu cau yn y dyfodol gan fod adeiladau rhestredig yn anodd ac yn ddrud i'w haddasu er mwyn delio â ffyrdd modern o weithio. Mae cyfran fawr o'r adeiladau rhestredig sydd wedi'u cau a'u gwerthu ers 2010 wedi cael eu troi'n dai yn unol â'r gofyniad traws-lywodraethol i gyfrannu tir ac eiddo i'r stoc genedlaethol o dai, neu i'w haddasu er mwyn iddynt gael eu defnyddio gan y gymuned fel ysgolion neu ganolfannau meddygol.

- 4.75. Pan fydd GLITEM yn gwerthu unrhyw adeilad hanesyddol yn y dyfodol, bydd yn parhau i gael gwared â'r rhain gan gydymffurfio â'r canllawiau sy'n bodoli. Byddwn yn ystyried addasrwydd prynwr arfaethedig, eu cynlluniau ar gyfer yr adeilad, yn ogystal â'u gallu i ofalu am yr adeilad ar ôl iddynt ei brynu, cyn y byddwn yn gwerthu adeilad iddynt. Rydym yn mynnu bod prynwyr arfaethedig yn profi eu bod wedi ymgymryd â gwaith ar adeiladau rhestredig yn y gorffennol, eu bod yn gallu cadarnhau eu bod wedi deall gofynion treftadaeth yr adeilad, a bod ganddynt gynlluniau i ddatblygu'r adeilad sy'n cydymffurfio â'r arweiniad cynllunio. Fodd bynnag yn y pen draw, tîm cynllunio'r cyngor lleol a'r swyddog cadwraeth sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau cynllunio ynghylch newidiadau i asedau treftadaeth yn ogystal â gorfodi pwerau pan fydd perchennog wedi torri rheolau adeilad rhestredig, ardal gadwraeth a rheolau cynllunio. Nod y dyletswyddau a'r pwerau hyn yn y pendraw yw diogelu unrhyw safle treftadaeth.

Gwella cyfleusterau i ddiodefwyr a thystion sy'n dod i'r llys

- 4.76. Wrth i ni ddechrau moderneiddio'r ystad, rydym wedi blaenoriaethu dechrau gwneud gwelliannau i gefnogi diodefwyr a thystion, oherwydd y rôl allweddol maent yn ei chwarae wrth i ni geisio sicrhau cyfiawnder, a'r disgwyliad rhesymol sydd ganddynt y byddwn yn eu trin yn ystyriol drwy'r broses.
- 4.77. Mae dros 156,000 o bobl yn rhoi tystiolaeth yn y llys bob blwyddyn. Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu'r amgylchedd gorau i bobl sy'n darparu'r dystiolaeth honno. Mae hyn yn cynnwys y man lle fydd pobl yn aros i baratoi i roi tystiolaeth, gan gynnwys manau tu allan i'r ystafell llys neu dribiwnlys ei hun. Yng Nghanolfan Cyfiawnder Aldershot, Llys Troseddol Lerpwl, Llys Ynadon Manceinion, Llys y Goron Newcastle a Chanolfan Cyfiawnder Nottingham, mae ystafelloedd model ar gyfer diodefwyr a thystion wedi'u dylunio. Cafodd yr ystafelloedd hyn eu datblygu o ganlyniad i'r adborth a gafwyd gan y Comisiynydd Dioddefwyr, gwirfoddolwyr lleol y Gwasanaeth Tystion a staff GLITEM i adnabod newidiadau i ofodau ym mhob adeilad er mwyn gwella profiad diodefwyr a thystion wrth iddynt baratoi i fynychu'r llys.
- 4.78. Mae archwiliad manwl o gyfleusterau ar gyfer diodefwyr a thystion wedi'i gwblhau ym mhob Llys y Goron a llys ynadon yng Nghymru a Lloegr, er mwyn ystyried p'un a yw gofynion y Cod Dioddefwyr a'r safonau yn y Siarter Tystion yn cael eu bodloni. Roedd yr archwiliad hefyd yn cynnwys adolygiad ar p'un a yw addasiadau rhesymol i ddiodefwyr a thystion yn cael eu gwireddu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a p'un a oedd yna enghreifftiau penodol o arfer da. Bydd y gwaith ar yr ystafelloedd model ar gyfer diodefwyr a thystion yn yr adeiladau a enwyd uchod, yn ogystal â chanlyniadau'r archwiliad cyfleusterau, yn cefnogi ein hymdrechion i adnabod gwelliannau pellach sydd angen eu gwneud yn y maes pwysig hwn.
- 4.79. Mae amrywiaeth o fesurau wedi cael eu rhoi mewn lle i helpu diodefwyr a thystion. Ym mhob achos, y barnwr fydd yn penderfynu pa rai o'r mesurau hyn i'w rhoi mewn lle, gan gymryd anghenion pob unigolyn i ystyriaeth. Mae amrywiaeth o fesurau

wedi cael eu rhoi mewn lle er mwyn helpu i leihau'r pryder sy'n gysylltiedig â mynychu llys. Mae'r rhain yn cynnwys gallu rhoi tystiolaeth o du ôl i sgrin a drwy ddefnyddio cyfryngwr cofrestredig. Mae defnydd cynyddol o gysylltiadau fideo yn golygu y gall mwy o ddiodefwyr bregus roi tystiolaeth tu allan i'r ystafell llys, heb orfod gweld eu hymosodwr. Fe ddechreuodd rhaglen dreigl yn 2015 ar gyfer gosod ac uwchraddio cysylltiadau fideo ar draws Cymru a Lloegr, ac ar hyn o bryd mae yna 215 o gysylltiadau fideo yn y llysoedd ynadon a 285 o gysylltiadau fideo yn Llysoedd y Goron. Hefyd, mae 20 cyswllt fideo o bell wedi'u gosod mewn llefydd heblaw adeiladau llys er mwyn i'n tystion mwyaf bregus allu cael mynediad at y mesur arbennig hwn.

4.80. Yn 2016/17, cafodd mwy na 137,000 o achosion eu gwrandao drwy gyswllt fideo, cynnydd o 10 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

4.81. Rydym yn datblygu ar lwyddiannau defnyddio croesholi a recordiwyd ymlaen llaw ac yn cefnogi cynllun uchelgeisiol i'w ymestyn i gynnwys tystion bregus ac ofnus. Yn y llysoedd teulu, mae dros 300 o sgriniau wedi cael eu gosod i'w defnyddio tra bydd unigolion yn rhoi tystiolaeth.

Cyfleusterau i blant a phobl ifanc

4.82. Rydym wedi bod yn edrych ar beth sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a'u cynrychiolwyr tra byddant mewn adeilad llys neu dribiwnlys. Yn 2016, fe ymgwymerwyd â chynllun i wella ystafelloedd ar gyfer plant er mwyn gwella dros 60 o ystafelloedd plant ar draws yr ystad. Rydym yn llunio arweiniad i sefydlu arferion gorau ar gyfer ystafelloedd aros plant a phobl ifanc, ac yn sicrhau bod y defnyddwyr yn rhan o'r gwaith hwn, gyda'r nod o osod meincnodau clir ar gyfer safonau'r ystad yn y maes hynod bwysig hwn.

Canllaw dylunio adeiladau llys yn y dyfodol

4.83. Mae ein gwaith i addasu a gwella'r cyfleusterau mewn adeiladau llys a thribiwnlysoedd yn cael ei ddwyn at ei gilydd mewn canllaw dylunio newydd ar gyfer y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Yn y dyfodol, mae angen i ddyluniadau llysoedd a thribiwnlysoedd sicrhau bod: technoleg yn rhan bwysig o'r dyluniad, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu wedyn; mae gennym ystafelloedd gwrandawriadau a llefydd gweithio sy'n cefnogi ffyrdd digidol o weithio; ac mae yna hyblygrwydd ar gyfer hyn lle bynnag mae ei angen. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod technegau adeiladu modern yn cael eu defnyddio i'r eithaf er mwyn mwychau ein buddsoddiad. Unwaith eto, gallwn droi at safbwyntiau eraill i danlinellu pwysigrwydd technoleg i lysoedd a thribiwnlysoedd modern. Mae adroddiad *What is a Court?* JUSTICE yn nodi:

Mae technoleg nawr yn llywio bywydau bob dydd unigolion a busnesau. Mae'n amser i'n llysoedd a'n thribiwnlysoedd adlewyrchu hyn. Dylai defnyddwyr allu rhyngweithio gyda'r system gan ddefnyddio adnoddau a thechnoleg maent yn defnyddio mewn rhannau eraill o'u bywydau, a dylai cefnogaeth fod ar gael i ddefnyddwyr sydd ddim yn gallu defnyddio technoleg ddigidol yn hyderus. Mae argaeledd a hygyrchedd cynyddol cynhyrchion a gwasanaethau technegol yn cyflwyno gwir gyfle i fewnosod technoleg yn ein system cyfiawnder.¹⁶

¹⁶ JUSTICE, *What is a Court?* (2016), tudalen 16

- 4.84. Drwy ddefnyddio technoleg a dyluniadau arloesol byddwn yn sicrhau bod ein ystad mor effeithiol, effeithlon a hyblyg ag sy'n bosibl a'i bod yn diwallu anghenion ein defnyddwyr. Rydym yn rhagweld y bydd potensial sylweddol yn y blynyddoedd sydd i ddod i wella sut mae ein hadeiladau'n cael eu cynllunio, gan wneud newidiadau er gwell. Mae hyblygrwydd o ran cynllun ystafelloedd gwrandawiadau yn rhan bwysig o'r Canllaw Dylunio newydd, sy'n adnabod dau fath o gynllun ar gyfer ystafelloedd gwrandawiadau: ffurfiol a safonol. O fewn y mathau hyn o ystafelloedd wrandawiadau, mae yna ddarpariaethau ar gyfer cynlluniau fyddai'n addas ar gyfer mathau gwahanol o wrandawiadau. Fe awgrymir beth ddylai maint pob math o ystafell wrandawiadau fod a faint o ddrysau ddylai fod iddi, ond gellir addasu cynllun yr ystafell i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer amrywiaeth o wrandawiadau barnwrol. Fel enghraifft, math safonol o ystafell wrandawiadau sydd fwyaf addas ar gyfer gwrandawiadau'r llys ynadon neu'r Siambrau Apeliadau Mewnfudo, ond gellir hefyd ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau Llys y Goron heb reithgor a gwrandawiadau sifil, teulu a gwrandawiadau tribiwnlys pan na fydd angen cyfleusterau carcharu. Bydd sicrhau bod yr ystafelloedd gwrandawiadau yn hyblyg yn cynyddu'r defnydd a wneir ohonynt gan wneud i'n buddsoddiad yn yr ystad fynd ymhellach.
- 4.85. Bydd y gofynion technolegol ar gyfer mathau gwahanol o ystafelloedd o fewn canolfan wrandawiadau yn parhau i ddatblygu wrth i elfennau eraill o'r rhaglen ddiwygio gael eu cyflawni; mae'r canllaw dylunio newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sicrhau hyblygrwydd i gynnal y ddarpariaeth dechnolegol gyfredol a datblygiadau yn y dyfodol. Mae angen i ystafelloedd wrandawiadau ond hefyd ystafelloedd barnwyr fod â mynediad at y dechnoleg angenrheidiol, fel bod yna amrywiaeth o amgylcheddau gweithio addas yn ein hystad wrth i ni ddigideiddio systemau a chyflwyno gwrandawiadau rhith. Mae'r canllaw dylunio yn nodi'r llinellau gweld y dylid eu cynnal yn y mathau gwahanol o ystafelloedd gwrandawo a phan fydd technoleg newydd yn cael ei gosod ynddynt, bydd y gofyniad hwn yn rhan o'r ystyriaethau yn ystod y cam dylunio.
- 4.86. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau o ran y dechnoleg sydd ei hangen ar gyfer agweddau eraill o'r rhaglen ddiwygio, megis gwrandawiadau rhith, bydd y canllaw dylunio'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn. Bydd y canllaw newydd yn cael ei adolygu'n fwy cyffredinol yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn i ni allu dysgu a chynnwys beth sy'n gweithio orau yn ymarferol ynddo pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i adeiladau.
- 4.87. Pwrpas y canllaw dylunio yw sicrhau bod ein hadeiladau yn datblygu i fod yn fwy hyblyg ac addas ar gyfer cyflawni cyfiawnder. Rydym wedi datblygu set o egwyddorion fydd yn sail i'n penderfyniadau dylunio pan fyddwn yn diweddarau neu'n uwchraddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Dylai ein hadeiladau fod yn:
- Addas: mae'n rhaid i'r adeiladau ddarparu'r amgylchedd a'r gwasanaeth cywir ar gyfer pob defnyddiwr a phob gwrandawiad, ac adlewyrchu urddas ac awdurdod y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
 - Effeithiol: mae'n rhaid i'r adeiladau fod yn amgylchedd diogel i staff ac eiddo a helpu pob defnyddiwr i gyflawni ei rôl.
 - Hygyrch: mae'n rhaid i'r adeiladau fod yn hawdd i'w defnyddio a rhaid i bawb allu darganfod eu ffordd o'u cwmpas yn rhwydd.
 - Hyblyg: mae'n rhaid i'r adeiladau fod yn hyblyg, o ran y gofynion dydd i ddydd ac o ran newidiadau yn yr hirdymor.
 - Cynaliadwy: mae'n rhaid i'r ystad fod yn fforddiadwy i'w chynnal a'i chadw.

- 4.88. I gefnogi datblygiad y canllaw dylunio a phrofi'r safonau a'r fethodoleg arfaethedig sydd i'w defnyddio, mae tair canolfan wedi cael eu huwchraddio yn Llys Cyfun Hull, Canolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham a Chanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd. Mi wnaeth pob un o'r safleoedd brofi arwyddion newydd, gan gynnwys arwyddion dwyieithog yng Nghaerdydd, a phrofwyd cynlluniau darganfod eich ffordd o amgylch yr adeilad ym mhob un o'r safleoedd. Cafodd 'edrychiad a theimlad' ardal aros y cyhoedd ym Mirmingham ei huwchraddio, ac yn Hull crëwyd ystafell addas ar gyfer plant, toilet hygyrch i'r anabl a hefyd ail-ddyluniwyd dau lys er mwyn cefnogi'r gallu i gynnal gwrandawiadau aml-awdurdodaethol ynddynt. Mae gosod dodrefn y gellir ei symud a rhagor o socedi trydanol a thechnoleg yn yr ystafelloedd gwrando yn golygu y gellir newid y cynllun er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer y math o wrandawriad a gynhelir yno. Cafodd y gwaith yn y tri safle ei gwblhau yn gynnar ym mis Hydref.
- 4.89. Cynhaliwyd gwerthusiadau yn ystod y cam cyntaf. Nawr bod y gwaith wedi'i gwblhau, bydd rhagor o waith gwerthuso'n cael ei wneud i fesur yr effaith ar yr holl ddefnyddwyr, gan gynnwys staff y llysoedd, defnyddwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr y gwasanaeth i ddiodefwyr a thystion, partneriaid eraill ac aelodau o'r farnwriaeth.
- 4.90. Mae'r lluniau isod yn dangos enghreifftiau o'r math o welliannau sydd wedi'u profi hyd yma, gan ddangos beth allai fod yn bosib pan fyddwn yn gwneud newidiadau i'n adeiladau yn y dyfodol.



Cyntedd y lifft ac arwyddion (Canolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham)



Ystafell Ilys ar gyfer achos sifil, teulu a thribiwnlys (Llys Cyfun Hull)

Parod at y dyfodol: Trawsnewid Ystad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd



Hysbysfyddau rhestru achosion (Canolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham)



Man aros y cyhoedd (Canolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham)

C5. Beth yw eich barn chi ar yr egwyddorion a'r dull arfaethedig i wella dyluniad adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliant?

Pobl a systemau

- 4.91. Mae gwell dyluniad a hyblygrwydd yn elfennau pwysig o'r darlun ond dim dyma yw'r stori gyfan. Wrth i ni barhau â'r gwaith i ddiwygio'r ystad byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r rolau rydym eu hangen yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Mae mewnwleidiadau cwsmeriaid yn rhoi gwybodaeth i ni ar y gefnogaeth rydym yn ei darparu ar hyn o bryd ac rydym nawr yn gwybod yn well sut gallwn wella hyn. Bydd ein timau yn cael eu strwythuro i gefnogi ein canolfannau llys a thribiwnlysoedd, a byddwn yn darparu staff blaen tŷ dynodedig fydd yn meddu ar yr wybodaeth gywir, fydd wedi cael hyfforddiant priodol ac a fydd â'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi aelodau'r cyhoedd a defnyddwyr proffesiynol. Bydd timau eraill yn cefnogi gwrandawiadau traddodiadol a gwrandawiadau dros fideo, a bydd gennym hefyd unigolion fydd yn gyfrifol am ddiogelwch pobl ac eiddo yn ogystal â sicrhau bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn cael eu cynnal yn briodol. Bydd y gwasanaeth a'r gefnogaeth yn gyson ar draws holl ganolfannau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
- 4.92. Rydym yn datblygu ein cynlluniau i hyfforddi dros 350 o'n gweithwyr i fod yn Swyddogion Cefnogaeth Ddigidol yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Wrth i dechnoleg ddod yn rhan fwy annatod o weithdrefnau'r llys a'r tribiwnlys, bydd DSOs yn darparu cefnogaeth ar safle, yn cynnal a chadw technoleg yn lleol ac yn sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi yn cael eu diagnosio a'u datrys yn brydlon ac yn gywir fel nad ydym yn dibynnu'n llwyr ar ddesg gymorth o bell. Yn ystod y profion i brofi'r cysyniad hwn cafodd dros 70% o'r problemau a godwyd gyda'r caledwedd yn lleol eu datrys gan y DSOs..

Gwasanaethau Digidol gyda Chymorth

Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein gwasanaethau digidol yn hygyrch i bawb.

Rydym yn gwybod y bydd rhai unigolion angen mwy o gefnogaeth nag eraill i ddefnyddio gwasanaethau digidol, ac felly rydym yn dylunio amrywiaeth o sianeli digidol gyda chymorth ar gyfer y pwrpas hwn. Golyga hyn, pan fydd gwasanaethau GLITEM yn symud i fod ar-lein, bydd cefnogaeth ar gael i'r rhai hynny sy'n cael anhawster i ddefnyddio technoleg. Bwriad gwasanaethau digidol gyda chymorth yw diwallu anghenion y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth digidol gan gynnwys apelyddion nad ydynt yn cael eu cynrychioli ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cynnal profion gydag amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr – gan gynnwys pobl hŷn, pobl lfanc, unigolion bregus, defnyddwyr sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell a defnyddwyr sy'n cael anhawster i ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein. Rydym yn defnyddio'r mewnwleidiadau a'r darganfyddiadau o'r gwaith ymchwil hwn i helpu i ddylunio gwasanaethau sy'n haws i'w deall a'u defnyddio.

Bydd y Gwasanaethau Digidol gyda Chymorth yn ystyried anghenion unigolion wrth iddynt ddefnyddio amrywiaeth o sianeli, o sgysiau dros y we neu alwadau ffôn (a ddarperir gan GLITEM) i gefnogaeth wyneb yn wyneb fydd yn fwy dwys. Bydd mynediad at ffurfiau papur o wasanaethau dal i fod ar gael mewn rhai amgylchaidau ar gyfer y rhai hynny sydd eu hangen. Bydd cefnogaeth digidol gyda chymorth wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu mewn lleoliadau lleol addas, megis mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol, yn hytrach na mewn llys neu ganolfan dribiwnlys.

Rydym wedi ffurfio partneriaeth â phrif sefydliad cynhwysiant digidol y DU, Good Things Foundation, i ddarparu cymorth digidol gyda chymorth wyneb yn wyneb drwy eu rhwydwaith o Ganolfannau Ar-lein. Mae dros 5000 o sefydliadau megis llyfrgelloedd, canolfannau Cyngor ar Bopeth a chanolfannau cymunedol eisoes wedi ymuno â'r rhwydwaith Canolfannau Ar-lein, ac maent yn cynnal rhaglenni cynhwysiant digidol ar ran sefydliadau fel GIG, yr Adran Addysg a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

- 4.93. Bydd gwell systemau hefyd yn chwarae rhan bwysig yn yr ymgais i wella profiad y defnyddiwr. Bydd systemau digidol a chefnogaeth dros y ffôn a'r we yn golygu na fydd rhaid i bobl ymweld â chanolfan wrandawiaadau i ddarganfod beth sydd angen iddynt wneud i symud eu hachos yn ei flaen, a bydd yn darparu cefnogaeth gyson, o ansawdd uchel. Ar gyfer unigolion sy'n eithriadol o fregus, rydym yn buddsoddi mewn gwasanaeth digidol gyda chymorth (gweler y blwch).
- 4.94. Ochr yn ochr â'r gwelliannau hyn rydym yn buddsoddi mewn systemau digidol i gefnogi'r gwaith o drefnu a rhestru achosion. Swyddogaeth farnwrol yw rhestru, a bydd yn parhau i fod yn hyn, ond byddwn yn cefnogi'r swyddogaeth rhestru drwy ddarparu gwell adnoddau digidol i leihau swmp y gwaith gweinyddol a chasglu a defnyddio data i wneud penderfyniadau gwybodus. Rydym wedi ymrwmo i weithio'n agos â holl ddefnyddwyr y llys a'r tribiwnlys, gan gynnwys unigolion proffesiynol a'r farnwriaeth, i ddeall beth yw blaenoriaethau pob grŵp a sut allwn restru achosion mewn ffordd sy'n cydbwysu anghenion lluosog, sydd weithiau'n gwrthdaro a chyflawni cyfiawnder. Bydd yr holl welliannau hyn yn ein helpu i symud tuag at restru achosion gyda mwy o sicrwydd y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal, gan alluogi partion ac unigolion proffesiynol i gynllunio eu hamser yn fwy effeithiol a lleihau'r rhwystredigaeth a godir gan ohiriadau.

C6. Beth yw eich barn chi ar ein dull o warchod pobl a systemau? Beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'r amrywiaeth fwyaf posibl o ddefnyddwyr wrth i ni ddatblygu systemau ar gyfer trefnu a rhestru achosion? Pa ffactorau ddylem gymryd i ystyriaeth wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau?

Dod â'n gwaith dadansoddi ynghyd

- 4.95. Yn y ddogfen hon rydym wedi trafod amrywiaeth o ffactorau rydym yn credu sydd angen eu hystyried pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r ystad a datblygu canolfannau llysoedd a thribiwnlysoedd y dyfodol. Yn aml bydd angen dod o hyd i falans rhwng amcanion cystadleuol. Ni wneir y penderfyniad i argymhell bod llys neu dribiwnlys yn cau ar sail un darn o ddata neu faen prawf. Rydym yn dod â data ynghyd mewn matrices gwerthuso fel y gallwn wneud asesiad ar bob safle sy'n sicrhau bod pob un o'n tair egwyddor graidd yn cael eu hystyried.
- 4.96. Mae'r matricesau hyn yn cynnwys yr holl ffactorau perthnasol (yn seiliedig ar yr egwyddorion a gytunwyd arnynt), megis gwybodaeth am lwythi gwaith a hygyrchedd; cyflwr a chapasiti adeilad; a'r costau gweithredu a chynnal a chadw.
- 4.97. Mae matricesau gwerthuso wedi'u defnyddio fel adnodd gwneud penderfyniad mewn ymgynghoriadau blaenorol. I wella tryloywder ein proses gwneud penderfyniadau rydym yn bwriadu cyhoeddi'r matrices gydag ymgynghoriadau'r llysoedd a thribiwnlysoedd yn y dyfodol. Am resymau cyfrinachedd masnachol, bydd angen i ni

ddileu peth o'r data ariannol sy'n fwyaf sensitif. Byddwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ddim yn sensitif fel y gall darllenwyr dogfennau ymgynghori yn y dyfodol wneud sylwadau gyda'r ymwybyddiaeth gorau posibl o'n prosesau gwneud penderfyniadau.

C7. A oes gennych farn ar ein dull ni o werthuso cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r ystad neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gallwn wella hyn?

Adolygiad annibynnol

4.98. Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir gogyfer â newid ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn cael eu craffu'n gyhoeddus. Rydym wedi ymrwmo i wneud penderfyniadau agored ac atebol ac mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'n glir y byddwn yn dangos hyn yn oed yn gliriach yn y dyfodol sut ydym yn gwneud penderfyniadau am leoliadau canolfannau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu hyder yn beth sydd, yn anochel, yn benderfyniadau heriol, boed yr heriau hynny ar gyfer y bobl sy'n gweithio yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd neu'r cymunedau maent yn gwasanaethu. Er mwyn cefnogi'r hyn a nodwyd uchod rydym wedi comisiynu adolygiad annibynnol a thrylwyr o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwneud newidiadau pellach i'r ystad. Bydd hwn yn edrych yn drylwyr ar p'un a yw:

- ein dadansoddiad capasiti yn cymryd yr wybodaeth gywir i ystyriaeth;
- bod y data a'r wybodaeth gywir yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio egwyddorion yr ystad i adnabod safleoedd i'w cau;
- bod y mathau cywir o ddadansoddi ac adnoddau priodol yn cael eu defnyddio i asesu effeithiau cynigion; a
- sut ydym yn dod â'r wybodaeth ynghyd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

4.99. Bydd canlyniadau'r adolygiad annibynnol hwn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon, fel bod gennym y sail gorau bosibl ar gyfer gwneud rhagor o benderfyniadau yn y dyfodol.

5. Rhan 5. Ymgynghori ar ddiwygio'r ystad yn y dyfodol

- 5.1. Yn Rhan 4 o'r ymgynghoriad hwn mi wnaethom drafod ein strategaeth arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar leoliadau llysoedd a thribiwnlysoedd yn ogystal â thanategu'r egwyddorion yr ydym yn bwriadu eu defnyddio i arwain y penderfyniadau fyddwn yn eu gwneud. Mae'r adran hon yn edrych ar sut fyddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'r ystad yn y dyfodol.
- 5.2. Fel mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'n glir, mae diwygio yn golygu ein bod yn disgwyl y bydd angen llai o ystafelloedd llys a thribiwnlys yn y dyfodol. Felly, bydd rhagor o gynigion i gau neu gyfuno canolfannau yn cael eu gwneud. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw gynnig o'r fath tan fydd gennym y dystiolaeth i'w gefnogi. Fodd bynnag, mae natur ac ehangder y newidiadau rydym yn cynllunio i'w gwneud yn golygu na fyddem naill ai'n sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr neu'n sicrhau'r arian i'w fuddsoddi yn y rhaglen ddiwygio petawn yn aros tan fydd y rhaglen gyfan wedi'i chwblhau cyn i ni ddechrau'r broses. Felly bydd y rhaglen o gyfuno canolfannau yn mynd yn ei blaen yn raddol. Felly, yn hytrach nag un ymgynghoriad mawr, byddwn yn ymgynghori ar safleoedd penodol neu grwpiau o safleoedd yn unigol fel rhan o raglen dreigl. Byddwn yn egluro pam fod ein tystiolaeth o'r rhaglen ddiwygio ehangach yn cefnogi'r cynnig/cynigion a pham ein bod yn credu bod modd cyfiawnhau cyfuno ein hystad ymhellach a buddion hyn i ddefnyddwyr a threthdalwyr.

Asesu ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

- 5.3. Cyn argymhell bod unrhyw lys neu dribiwnlys yn cau, ac wrth i ni ystyried ein hegwyddorion o sicrhau mynediad at gyfiawnder; darparu gwerth am arian; a sicrhau effeithiolrwydd yn yr hir dymor, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall:
- y defnydd a wneir o'r adeilad, a'i gyflwr,;
 - lle allai achosion gael eu rhestru petai'r llys neu'r tribiwnlys yn cau,;
 - hygyrchedd y llys neu'r tribiwnlys fydd yn ymgymryd â'r gwaith;
 - capasiti presennol unrhyw lys neu dribiwnlys fydd yn ymgymryd â'r gwaith;
 - amcan bris o gostau gwireddu hyn; a
 - manteision cyffredinol a chostau cau'r adeilad.
- 5.4. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth leol a rhanbarthol i sicrhau ein bod yn deall cyn belled a bo hynny'n bosib effaith ein cynigion ar ein defnyddwyr a'r gweithwyr. Yn bwysicach oll, byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion fyddwn yn eu cael i'r ymgynghoriad cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Gweinidogion.

Y broses gwneud penderfyniadau

- 5.5. Cyn cyhoeddi unrhyw gynigion ar gyfer cau llys neu dribiwnlys, neu'r ymateb i'r ymgynghoriad, rydym yn dilyn proses lywodraethu drylwyr. Rhaid i'r holl gynigion hyn gael eu cymeradwyo i ddechrau gan y cyfarwyddwr cyflawni rhanbarthol priodol. Nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei gynnal yn y rhanbarth a bydd angen iddynt gytuno y bydd hyn yn parhau petai'r llysoedd neu'r

tribiwnlysoedd hyn yn cau. Yna caiff y cynigion eu hasesu gan Fwrdd Eiddo GLITEM. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys uwch arweinyddion, arbenigwyr eiddo ac uwch aelodau o'r farnwriaeth, ac maent yn gyfrifol am ystyried p'un a yw'r cynigion yn briodol ac yn bodloni anghenion y rhai hynny sy'n defnyddio'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd nawr ac yn y dyfodol.

- 5.6. Mae yna gytundeb ffurfiol yn bodoli rhwng Cadeirydd Bwrdd GLITEM, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd y byddant yn cael eu hysbysu ac yn cael cyfle i fynegi eu barn cyn i unrhyw argymhellion gael eu gwneud i gau llys neu dribiwnlys yn dilyn ymgynghoriad. Dim ond ar ôl iddo gael, ac ystyried eu hymateb y bydd Bwrdd GLITEM yn gwneud ei benderfyniad terfynol.
- 5.7. Yn olaf, caiff yr holl gynigion eu hystyried am y tro olaf gan Fwrdd GLITEM, a bydd Cadeirydd GLITEM a'n cyfarwyddwyr anweithredol yn eu craffu.
- 5.8. Ar ôl i'r cynigion gael eu hystyried gan Fwrdd GLITEM, byddwn yn gwneud argymhellion i'r Arglwydd Ganghellor a fydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch cyhoeddi manylion y cynigion ac, yn dilyn ymgynghori ac adolygu'r ymatebion a gafwyd, p'un a ddylid cau llys neu dribiwnlys.

Ymgynghori a thystiolaeth

- 5.9. Mae rhannau blaenorol o'r ymgynghoriad hwn wedi trafod beth yw'n disgwyliadau o ran manteision posibl moderneiddio'r ystad. Wrth i ni gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, er bod y gwaith hwn ar y gweill, mae nifer o'r manteision eto i'w cyflawni. Wrth iddynt gael eu profi'n ymarferol, bydd y disgwyliadau'n cael eu hadolygu a'u diwygio.
- 5.10. Rydym felly yn cynnig newid i sut fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau yn y dyfodol. Lle'r ydym yn y gorffennol wedi paratoi ymgynghoriadau cenedlaethol mawr ar ran fawr o'r ystad, rydym nawr yn cynnig ein bod yn cynnal rhaglen dreigl o ymgynghoriadau llai.
- 5.11. Fel mae'r papur hwn yn nodi'n glir, ni fyddwn yn argymhell bod unrhyw leoliad yn cau nes bydd gennym y dystiolaeth i ddangos bod ein gofynion capasiti yn golygu ein bod angen ystad llai – ni fyddwn yn cau adeiladau er mwyn paratoi ar gyfer y rhaglen diwygio, dim ond pan fydd yn dechrau cael effaith. Fodd bynnag, mae'r broses o ddechrau ymgynghoriad i gau a gwerthu adeilad fel arfer yn cymryd tua 18 mis (hirach ar gyfer llysoedd neu dribiwnlysoedd sydd angen gwneud mwy o waith arnynt). O ystyried graddfa'r rhaglen ddiwygio yr ydym yn ceisio ei chyflawni a'r gofyniad i sicrhau gwerth am arian ac effeithiolrwydd, pan fyddwn yn gweld tystiolaeth bod patrymau'n newid, ac nad oes angen adeilad mwyach, ac y gellir ei gau heb niweidio'r ddarpariaeth a mynediad at gyfiawnder, rydym eisiau ymateb i'r dystiolaeth honno mewn da bryd. Rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy gyhoeddi ymgynghoriadau pan fydd gennym dystiolaeth i gefnogi argymhelliad i gyfuno'r ystad mewn lleoliad penodol, yn hytrach nag aros nes bydd y rhaglen ddiwygio gyfan wedi'i chyflawni. Byddai gwneud fel arall a gohirio gwneud newidiadau tan fydd holl waith y rhaglen ddiwygio wedi'i gwblhau ac mewn lle yn wastraff ar yr adnoddau cyfyngedig sydd gennym.
- 5.12. Byddwn yn casglu tystiolaeth o'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth i'r rhaglen ddiwygio fynd yn ei blaen. Byddwn yn defnyddio ein profiadau blaenorol pan fyddwn yn profi prototeipiau neu'n asesu rhaglenni treigl.

Integreiddio adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd

- 5.13. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad hwn, mae yna sawl tref a dinas ar draws Cymru a Lloegr sydd â mwy nag un adeilad llys neu driwlynlys. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnig potensial i integreiddio'r gwaith a wneir ar draws dau safle neu fwy mewn un adeilad. Mae yna sawl mantais i hyn. Yn gyntaf, byddai'n sicrhau arbedion o ran y costau gweithredu. Yn ail, byddai'n golygu y gallwn ddefnyddio ein harian i gynnal a chadw a gwella llai o adeiladau. Yn ogystal â hyn, byddai'n ein galluogi i wneud gwell defnydd o'r adeiladau sy'n weddill, gan leihau'r amser y mae ystafelloedd llys a thribiwnlysoedd yn wag. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn ein helpu ni i ddatblygu ystad sy'n fwy hyblyg ac ymatebol, sydd mewn gwell sefyllfa i gymryd mantais lawn o fanteision diwygio'r ystad.
- 5.14. Fe wneir ein penderfyniad o ran asesu p'un a yw cyfuno adeiladau yn briodol neu a oes angen cynnal ymgynghoriad ar gau adeilad yn seiliedig ar leoliadau'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd sydd dan sylw. Oherwydd bydd yr amodau yn amrywio o un lleoliad i'r llall, nid ydym wedi gosod pellter mwyaf penodol, ond bydd rhaid i'r adeiladau llys neu'r tribiwnlysoedd dan sylw fod yn yr un ddinas neu ardal leol ac yn gwasanaethu ardal debyg. Byddai angen i'r lleoliadau fod yn hygyrch a bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r un rhwydwaith cludiant cyhoeddus i'w cyrraedd (er enghraifft prif orsafoedd rheilffyrdd neu fysiau).
- 5.15. Yn achos Llundain, rydym wedi ymgynghori ar gau llysoedd lle byddai'r gwaith yn cael ei symud tu allan i'r fwrdeistref leol.
- 5.16. Yn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015, mi wnaethom ddarparu manylion integreiddiadau cynlluniedig. Byddwn yn parhau i roi gwybodaeth am ein cynlluniau i'n rhanddeiliaid a byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau o randdeiliaid lleol wrth i ni ddatblygu cynlluniau i gyfuno adeiladau.

C8. Beth yw eich barn chi ar sut fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar yr ystad yn y dyfodol?

Gwerthuso effaith gwneud newidiadau i'r ystad ar y gwasanaethau a ddarperir

Asesiadau o Effaith

- 5.17. Fel gydag ymgynghoriadau blaenorol lle argymhellwyd bod adeiladau penodol yn cael eu cau, rydym yn cyhoeddi asesiadau o'r effaith ffurfiol ar gyfer yr wyth ymgynghoriad ar gau llysoedd lleol ac maent wedi'u hatodi i'r ymgynghoriad hwn (pum dogfen ar leoliadau daearyddol yr wyth llys). Byddwn yn parhau i wneud hyn wrth i ni ystyried cyfuno lleoliadau eraill.
- 5.18. Gan nad yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys unrhyw gynigion penodol ar gyfer newid nid yw wedi bod yn bosibl cynnal asesiad o'r effaith. Mae asesiadau o effaith ar y newidiadau a datganiadau cydraddoldeb wedi'u paratoi gogyfer â'r cynigion i gau llysoedd a geir yn Rhan 3. Bydd yr ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn yn siapio ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol a sut byddwn yn mynd ati i gynnal ymgynghoriadau eraill yn y dyfodol.

Datganiadau Cydraddoldeb

- 5.19. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi beth yw ein hegwyddorion ar gyfer ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn y dyfodol. Mae'n adnabod beth ydym yn ystyried i fod yn strategaeth effeithiol ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella, cyfuno a moderneiddio ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Rydym yn gofyn am adborth gan ddefnyddwyr, defnyddwyr proffesiynol cyfreithiol, y farnwriaeth ac aelodau'r cyhoedd ynghylch hyn.
- 5.20. Bwriad ein cynigion - gan gynnwys gwneud defnydd mwy effeithiol o wasanaethau digidol, a gwneud defnydd mwy hyblyg o'r llysoedd - yw gwella hygyrchedd y gwasanaethau a ddarperir i holl ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac rydym yn ystyried y byddant yn gwneud hynny. Wrth inni ddatblygu ein cynigion strategol ar gyfer yr ystad, rydym wedi ystyried yn ofalus yr effeithiau cydraddoldeb. Er enghraifft, rydym wedi trafod yr angen am ddarpariaeth llys a thribiwnlys atodol, ac rydym wedi ystyried yn ofalus hygyrchedd cyfleusterau a dyluniad ein hadeiladau fel rhan o'n canllaw dylunio newydd.
- 5.21. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni fydd y strategaeth arfaethedig a amlinellwyd yn y ddogfen hon yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarparir ac fel y cyfryw, ni allwn gynnal dadansoddiad cydraddoldeb manwl. Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad, ac ar ôl penderfynu ar yr hyn fyddwn yn ei wneud yn y dyfodol, byddwn yn cynnal asesiadau cydraddoldeb manwl pan fyddwn yn datblygu unrhyw gynigion i gau llysoedd a thribiwnlysoedd.
- 5.22. Rydym wedi cynnal Datganiad Cydraddoldeb ar gyfer bob un o'r rhanbarthau a fyddai'n cael eu heffeithio gan ein cynigion i gau wyth llys, ac mae'r rhain wedi'u hatodi i'r ddogfen hon. Rydym o'r farn nad yw ein cynigion polisi yn debygol o beri anffafiaeth uniongyrchol anghyfreithlon i'r unigolion neu'r grwpiau hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. O ran anffafiaeth anuniongyrchol, mae GLITEM yn ystyried y gallai'r cynigion i gau'r wyth llys a adnabuwyd roi'r rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig anabledd, beichiogrwydd neu famolaeth dan anfantais oherwydd yr anhawster gallent wynebu yn sgil gorfod teithio ymhellach na fyddent wedi gorfod yn flaenorol. Fodd bynnag, mae GLITEM yn ystyried fod yr opsiwn hwn yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod gyfreithlon fel yr eglurwyd yn fanylach yn y datganiadau cydraddoldeb.
- 5.23. Rydym wedi gofyn i ymgynghoreion yr ymgynghoriadau ar gau'r llysoedd fynegi eu barn ar effeithiau cydraddoldeb tebygol y cynigion ar ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd â nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn diweddarau'r Datganiadau Cydraddoldeb i gyd-fynd â'r ymatebion.
- 5.24. Yn ogystal â'r Asesiad o'r Effaith angenrheidiol ar gyfer y cynigion, bydd angen i ni sicrhau wrth i ni gau rhagor o adeiladau, ein bod yn monitro perfformiad gweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel bod gennym ddealltwriaeth glir o unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a'r rhanddeiliaid.

C9. Beth yw eich barn chi ar sut mae'r cynigion hyn yn debygol o effeithio ar grwpiau o ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd â nodweddion gwarchodedig penodol fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? A oes yna unrhyw ffynonellau tystiolaeth neu waith ymchwil ddylem eu hystyried?

Holiadur

- C1. Beth yw eich barn chi ar ein meincnod arfaethedig y dylai bod y mwyafrif yn gallu mynychu gwrandawriad ar amser a dychwelyd o fewn diwrnod, a gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus os bydd angen?**
- C2. Beth yw eich barn chi ar ddarparu gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd tu allan i adeiladau llysoedd a'r tribiwnlysoedd traddodiadol? A oes gennych chi farn ar y dulliau yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu ac a oes yna gamau eraill y gallwn eu cymryd i wella hygyrchedd ein gwasanaethau?**
- C3. Beth yw eich barn chi ar sut fydd ein dadansoddiad o'r amseroedd teithio yn cael effaith ar ein cynigion? A oes yna unrhyw ddulliau eraill dylem eu hystyried?**
- C4. A ydych chi'n cytuno mai'r meini prawf hyn yw'r rhai cywir i'w defnyddio wrth asesu capasiti? A oes yna unrhyw rai eraill dylem eu hystyried?**
- C5. Beth yw eich barn chi ar yr egwyddorion a'r dull arfaethedig i wella dyluniad adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliant?**
- C6. Beth yw eich barn chi ar ein dull o warchod pobl a systemau? Beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'r amrywiaeth fwyaf posibl o ddefnyddwyr wrth i ni ddatblygu systemau ar gyfer trefnu a rhestru achosion? Pa ffactorau ddylem gymryd i ystyriaeth wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau?**
- C7. A oes gennych farn ar ein dull ni o werthuso cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r ystad neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gallwn wella hyn?**
- C8. Beth yw eich barn chi ar sut fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar yr ystad yn y dyfodol?**
- C9. Beth yw eich barn chi ar sut mae'r cynigion hyn yn debygol o effeithio ar grwpiau o ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd â nodweddion gwarchodedig penodol fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? A oes yna unrhyw ffynonellau tystiolaeth neu waith ymchwil ddylem eu hystyried?**
- C10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w nodi ar ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol?**

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Mapiau

Mae map o ystad y llysoedd fesul rhanbarth wedi'i ddarparu fel Atodiad A, ac fe'i gyhoeddir ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-court-tribunal-estate>

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn.	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodedeb o'r unigolion neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli..

Dylech anfon eich ymateb erbyn 29/03/2018 i:

HMCTS Consultation
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Post Point 6.07
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Gellir cael copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein ar www.justice.gov.uk/about/hmcts/index.htm.

Gellir gwneud cais am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn gan [\[estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk\]](mailto:estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk).

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn chwe mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn www.justice.gov.uk/about/hmcts/index.htm.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r unigolion a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei dadlennu'n unol â deddfwriaethau mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i ni drin yr wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddadlennu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymrwngodiad cyfrinachedd awtomatig wedi ei gynhyrchu ar eich system TG, ar ei ben ei hun, yn ymrwymo'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, ac yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddadlennu i drydydd parti.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>

Manylion cyswllt Cydlynedd yr Ymgynghoriad

Rhaid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at yr unigolyn cyswllt a enwir dan yr adran Sut i Ymateb.

Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw sylwadau, neu os hoffech gwyno am y **broses** ymgynghori, dylech gysylltu â HMCTS Consultation drwy anfon e-bost i estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk.

Neu gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

HMCTS Consultation Co-ordinator
Post Point 6.07,
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

© Hawlfraint y Goron 2018
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformat arall drwy gysylltu â [rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost yr adran berthnasol].